
ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014

Diwygiedig





NATIONAL STATISTICS
YSTADEGAU GWLADOL

**Pwyntiau cysylltu**

**Cymru**
Yn achos ymholiadau am ystadegau cysylltwch â'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi:
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **desg.ystadegau@llyw.cymru**
Minicom: 029 2082 3280
Cyfeiriad: Uned Cyhoeddiadau Ystadegol
Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
CAERDYDD, CF10 3NQ
Gallwch ddod o hyd i Ystadegau ar gyfer Cymru ar y rhyngrwyd
**www.cymru.gov.uk/ystadegau**
**www.twitter.com/ystadegaucymru**

**Y Deyrnas Unedig**
Yn achos ymholiadau ystadegol, cysylltwch â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol
Ffôn: 0845 601 3034
Ymholiadau yng Nghymraeg:
01633 813381
Minicom: 01633 812399
E-bost: **info@statistics.gov.uk**
Ffacs: 01633 652747
Cyfeiriad: Canolfan Cysylltiad Cwsmer,
Ystafell 1.015,
Swyddfa Ystadegau Gwladol,
Ffordd Caerdydd,
Casnewydd, NP10 8XG
Gallwch hefyd ddod o hyd i Ystadegau Gwladol ar y rhyngrwyd
**www.statistics.gov.uk**

**Cyhoeddiad Ystadegau Gwladol**
Cynhyrchir ystadegau swyddogol sy'n dwyn logo Ystadegau Gwladol i safonau proffesiynol uchel a nodir yng Nghod Ymarfer Ystadegau Gwladol. Maent yn cael eu hadolygu yn rheolaidd o safbwynt sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y cwsmer.
Fe'u cynhyrchir yn rhydd rhag unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

© Hawlfraint y Goron 2014
Cyhoeddwyd gyntaf 2014

ISBN 978 1 4734 2624 5

Llywodraeth Cymru

WG23898

Gellir dyblygu darnau byr o'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio mapiau ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell yn llawn. Dylid cyfeirio ceisiadau am ddyblygu mapiau a darnau hirach at

Yr Uned Hawlfraint,
Gwasg Ei Mawrhydi,
St Clements House,
2-16 Colegate,
Norwich,
NR3 1BQ

Seilir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r Hawlfraint y Goron a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif Trwydded GD272221.

Yn achos ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â'r
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru**

OGL

Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall.
**www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/**

## Cynnwys


**1 Cefndir i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) .............................1**
**2 Mynegai Cyffredinol MALIC 2014 (r) ...........................................................12**
**3 Y Maes Incwm (r) ...........................................................................................23**
**4 Y Maes Cyflogaeth..........................................................................................31**
**5 Y Maes Iechyd ................................................................................................39**
**6 Y Maes Addysg ...............................................................................................48**
**7 Y Maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau .............................................56**
**8 Y Maes Diogelwch Cymunedol .....................................................................66**
**9 Y Maes Amgylchedd Ffisegol ........................................................................75**
**10 Y Maes Tai .....................................................................................................84**
**11 Atodiad A: Cynhyrchion MALIC ..................................................................92**
**12 Atodiad B: Disgrifiad o AGEHI/ Uned ddaearyddol ....................................93**
**13 Atodiad C: Rhestr o ddangosyddion MALIC 2014 .......................................99**


**Nodwch**
(r) Cafodd pennawdau 2 a 3 eu adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Am wybodaeth ar effaith y diwygiadau ar MALIC 2014 gwelwch y nodyn gwybodaeth.

## Rhestr Tablau


Tabl 1.1: MALlC 2014 - enghreifftiau o batrymau amddifadedd ar draws meysydd ... 8

Tabl 2.1: Tabl o’r Symudiadau yn y Degraddau rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014 14

Tabl 2.2: Graddfeydd mwyaf difreintiedig MALlC 2014 ........................................... 16

Tabl 3.1: Symudiadau’r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Incwm rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014 ........................................................................................... 26

Tabl 3.2: Dosbarthiad y boblogaeth sy’n ddifreintiedig o ran incwm, MALlC 2014 ... 28

Tabl 3.3: ACEHI difreintiedig maes Incwm MALlC 2014, fesul awdurdod lleol ......... 29

Tabl 4.1: Symudiadau yn y grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Cyflogaeth rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014 ............................................................................ 34

Tabl 4.2: Dosbarthiad y boblogaeth sy’n ddifreintiedig o ran cyflogaeth, MALlC 2014 ............................................................................................................... 35

Tabl 4.3: ACEHI difreintiedig yn y maes cyflogaeth, fesul awdurdod lleol ................ 37

Tabl 5.1: Symudiadau’r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Iechyd rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014 ........................................................................................... 43

Tabl 5.2: ACEHI difreintiedig y maes Iechyd, fesul awdurdod lleol .......................... 46

Tabl 6.1: Symudiadau’r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Addysg rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014 ........................................................................................... 52

Tabl 6.2: ACEHI difreintiedig y maes Addysg, fesul awdurdod lleol ......................... 54

Tabl 7.1: Symudiadau’r grwpiau amddifadedd ar gyfer Mynediad Daearyddol i Wasanaethau rhwng MALlC 2001 a MALlC 2014 ................................................... 62

Tabl 7.2: ACEHI difreintiedig y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau, fesul awdurdod lleol ........................................................................................................ 64

Tabl 8.1: Symudiadau’r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Diogelwch Cymunedol rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014 ......................................................................... 70

Tabl 8.2: ACEHI difreintiedig y maes Diogelwch Cymunedol, fesul awdurdod lleol . 73

Tabl 9.1: Symudiadau’r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Amgylchedd Ffisegol rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014 ......................................................................... 80

Tabl 9.2: ACEHI difreintiedig y maes Amgylchedd Ffisegol, fesul awdurdod lleol .... 82

Tabl 10.1: Symudiadau’r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Tai rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014 ........................................................................................... 88

Tabl 10.2 ACEHI difreintiedig y maes Tai, fesul awdurdod lleol ............................... 90

## Rhestr Siartiau

Siart 1.1 Dosbarthiad maes incwm MALlC 2014 ........ 7
Siart 2.1: Plot blwch o safleoedd y mynegai cyffredinol, fesul awdurdod lleol .......... 20
Siart 3.1: Dosbarthiad y maes incwm ........ 27
Siart 3.2: Box plot of WIMD 2014 Income domain ranks, by local authority ............. 28
Siart 4.1: Dosbarthiad y maes cyflogaeth ........ 35
Siart 4.2: Plot blwch o safleoedd maes cyflogaeth MALlC 2014 fesul awdurdod lleol ........ 36
Siart 5.1: Plot blwch o safleoedd maes iechyd MALIC 2014, fesul awdurdod lleol ... 45
Siart 6.1: Plot blwch o safleoedd maes addysg MALIC 2014, fesul awdurdod lleol . 53
Siart 7.1: Plot blwch o safleoedd maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau MALIC 2014, fesul awdurdod lleol ........ 63
Siart 8.1: Plot blwch o safleoedd maes Diogelwch Cymunedol MALIC 2014, fesul awdurdod lleol ........ 72
Siart 9.1: Plot blwch o safleoedd maes amgylchedd ffisegol MALIC 2014, fesul awdurdod lleol ........ 81
Siart 10.1: Plot blwch o safleoedd maes tai MALIC 2014 fesul awdurdod lleol ........ 89

# 1 Cefndir i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)

MALlC yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn rhannau bychain o Gymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny o'r wlad sydd â'r nifer mwyaf o sawl gwahanol fath o amddifadedd. Felly, mae MALlC yn mesur amddifadedd lluosog ar sail ardal a hefyd o safbwynt amddifadedd cymharol. Ceir esboniad llawnach o'r termau allweddol hyn isod.

## 1.1 Beth mae MALlC yn ei fesur?

Ar hyn o bryd mae MALlC yn cynnwys wyth gwahanol faes (neu fath) o amddifadedd. Mae pob maes wedi ei seilio ar amrywiaeth o wahanol ddangosyddion.

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad daearyddol i wasanaethau
- Diogelwch Cymunedol
- Yr Amgylchedd Ffisegol
- Tai

Amddifadedd yw'r diffyg cyfleoedd ac adnoddau y gallem eu disgwyl yn ein cymdeithas. Mae'r meysydd a restrir uchod yn ymwneud ag amddifadedd o safbwynt materol a chymdeithasol. Ystyr amddifadedd materol yw bod heb ddigon o adnoddau ffisegol - bwyd, dillad a chysgod - i gynnal safon byw benodol. Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at allu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae amddifadedd lluosog yn cyfeirio at fwy nag un math o amddifadedd. Mae ardal yn un ag amddifadedd lluosog os yw'n cynnwys nifer fawr o bobl sy'n profi'r math hwnnw o amddifadedd ar gyfer mwy nag un o'r meysydd hyn. Yn gyffredinol, po fwyaf o feysydd sydd â chrynodiadau uchel o amddifadedd, po fwyaf yw lefelau amddifadedd cyffredinol yr ardal. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr *un* bobl yn dioddef sawl math o amddifadedd yn yr ardal, er y byddem yn disgwyl cryn dipyn o orgyffwrdd.

Mesur ar sail ardal*:* Cyfrifir MALlC ar gyfer pob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru. Ar ôl Cyfrifiad 2011, diffiniwyd 1,909 ACEHI yng Nghymru, ac mae ganddynt boblogaeth o 1,600 ar gyfartaledd. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ACEHI yn Atodiad B, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'u diwygio yn dilyn Cyfrifiad 2011. Mae'r ACEHI yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n ystyried nodweddion cyfun y bobl sy'n byw yn yr ardal, yn ogystal â nodweddion yr ardal ei hun mewn rhai achosion (er enghraifft y maes amgylchedd ffisegol).

Mesur cymharol**:** Mae'r Mynegai'n darparu ffordd o nodi'r ardaloedd yn eu trefn, o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig. Yn hytrach na mesur y lefelau amddifadedd mewn ardal, mae'n mesur a yw'r ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig na holl ardaloedd eraill Cymru. Gallwn nodi pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) difreintiedig na rhai eraill, ond

nid faint yn fwy neu'n llai. Y rheswm dros ddefnyddio dull o'r fath yw bod hyn yn caniatáu inni gyfuno'r gwahanol feysydd.

Mynegai**:** Grŵp o fesuriadau ar wahân wedi'u cyfuno i roi un rhif yw mynegai. Y nod yw dangos newidiadau mewn newidyn cymhleth fel cynnyrch diwydiannol, prisiau neu amddifadedd yn yr achos hwn. Yna, mae mynegai yn fodd i gymharu rhwng gwahanol werthoedd - sef cymharu ACEHI yn achos MALlC.


### 1.2 Sut mae'r Mynegai'n cael ei lunio

Mae tair elfen sylfaenol yn perthyn i'r Mynegai:


- y Mynegai ei hun, sef set o safleoedd;
- safleoedd yr wyth math o amddifadedd, neu faes, a ddefnyddir i lunio'r Mynegai cyffredinol;
- y dangosyddion sylfaenol, sy'n uniongyrchol fesuradwy, ac sy'n cael eu cyfuno i greu safleoedd y meysydd. Nodir rhai, ond nid pob un, o'r dangosyddion fel cyfraddau. Mae'r unedau'n dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei fesur.

Cyfrifir yr holl elfennau hyn ar gyfer pob ACEHI yng Nghymru. Mae safleoedd cyffredinol MALlC 2014 a safleoedd yr wyth maes amddifadedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru. Os ydynt ar gael, mae data sylfaenol y dangosyddion bellach yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ar StatsCymru.

Mae'r ffeithlun canlynol yn rhoi golwg gyffredinol, heb fod yn dechnegol, ar sut mae MALlC yn cael ei gyfrifo.



Mae'r diagram canlynol yn rhoi disgrifiad mwy manwl o sut y cyfrifir MALlC.



Defnyddir swm sydd wedi'i bwysoli o sgôr amddifadedd pob maes i lunio MALlC. Mae'r pwysoliad yn adlewyrchu pwysigrwydd y maes fel elfen o amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes hwnnw. Pwysoliadau'r meysydd ar gyfer MALlC 2014 yw:

| | |
|---|---|
| Incwm | 23.5% |
| Cyflogaeth | 23.5% |
| Iechyd | 14.0% |
| Addysg | 14.0% |
| Mynediad i Wasanaethau | 10.0% |
| Diogelwch Cymunedol | 5.0% |
| Yr Amgylchedd Ffisegol | 5.0% |
| Tai | 5.0% |

Mae'r fethodoleg gyffredinol a ddefnyddiwyd ym MALlC 2014 yr un fath â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer MALlC 2011. Mae'r meysydd wedi aros yr un fath hefyd. Gwnaed nifer fechan o newidiadau i ddangosyddion unigol (neu gynnwys dangosyddion newydd) o fewn meysydd Incwm, Addysg, Mynediad i Wasanaethau, Diogelwch Cymunedol, yr Amgylchedd Ffisegol a Thai; yn ogystal â rhai newidiadau technegol i rai o'r meysydd unigol.

Mae rhestr gyflawn o'r dangosyddion a gafodd eu cynnwys ym MALlC 2014 ar gael yn Atodiad C.

Mae gwybodaeth dechnegol, fanwl am y dangosyddion a methodoleg MALlC (a newidiadau ers MALlC 2011) ar gael yn Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

## 1.3 Datblygu MALlC 2014

Yn 2013, cynhaliwyd adolygiad cysyniadol o MALlC gyda chymorth gan academyddion allanol. Pwrpas yr adolygiad oedd egluro'r sail gysyniadol a'r diffiniadau a ddefnyddiwyd ym MALlC. Mae canlyniadau'r adolygiad wedi eu cynnwys yn adran ddiffiniadau'r adroddiad hwn.

Er mwyn datblygu dangosyddion i'w cynnig fel testun ymgynghoriad cyhoeddus, gweithiodd ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru gyda saith grŵp testun arbenigol i edrych ar y dangosyddion a ddefnyddiwyd ym MALlC 2011 ac i ystyried dangosyddion newydd posibl. Roedd pob un o'r grwpiau testun yn cynnwys arbenigwyr dadansoddol o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru) a chynrychiolwyr meysydd polisi o Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y dangosyddion a gynigiwyd ar gyfer MALlC 2014 rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Chwefror 2014. Diben yr ymgynghoriad hwn oedd sicrhau bod y cynigion ar gyfer meysydd a dangosyddion MALlC 2014 yn cael eu hadolygu'n feirniadol. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yma.

Derbyniwyd 29 ymateb gan amrywiaeth o wahanol sefydliadau. Cafodd pob ymateb i'r ymgynghoriad a barn grwpiau defnyddwyr eraill eu hystyried yn ofalus. Yng ngoleuni'r ymatebion, cynhaliwyd gwaith ymchwilio ac asesu ychwanegol ynglŷn â dichonolrwydd dangosyddion newydd.

Cyhoeddwyd ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Mehefin 2014. Roedd hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chrynodeb o waith diweddar, ac yn amlinellu newidiadau a wnaed yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yma.

### 1.4 Ar gyfer beth y gellir defnyddio MALlC?

Mae'n bwysig deall, wrth ddatblygu polisïau, rhaglenni a chyllid sy'n seiliedig ar ardaloedd, sut mae pobl ddifreintiedig wedi eu dosbarthu ledled Cymru. Gellir gwneud hynny trwy gynnal y math o ddadansoddiad a ddisgrifir isod.

Gellir defnyddio MALlC er mwyn:


- canfod yr ardaloedd mwyaf difreintiedig gan ddefnyddio'r safleoedd. Er enghraifft, y 10 y cant mwyaf difreintiedig o bob ACEHI yng Nghymru yw'r rhai yn y safleoedd rhwng 1 a 191 (gan gynnwys y safleoedd hynny). Fodd bynnag, nid yw pawb sy'n ddifreintiedig yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- cymharu safleoedd amddifadedd cyffredinol pob ardal fach neu grŵp ohonynt (megis y rhai mewn Awdurdod Lleol), er mwyn gallu eu rhoi mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig;
- cymharu safleoedd ymysg meysydd amddifadedd unigol yr ardaloedd bach;
- cymharu dau neu fwy awdurdod lleol (neu grwpiau eraill o ardaloedd bach wedi'u cydgasglu) trwy edrych ar gyfran yr ardaloedd bach yn yr Awdurdod Lleol sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (dyweder) yng Nghymru gyfan;
- trwy ddefnyddio data sylfaenol y dangosyddion (ond nid y safleoedd MALlC eu hunain) mae modd dadansoddi newid dros gyfnod o amser (cyhoeddir data'r dangosyddion ar StatsCymru).

Mae Siart 1.1 dros y dudalen yn dangos dosbarthiad canran y boblogaeth mewn aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau incwm, ar sail safleoedd y maes incwm ym MALlC 2014. Mae'n bwysig deall bod:

- cyfraddau amddifadedd yn cynyddu'n sylweddol ym mhen mwyaf difreintiedig y dosbarthiad;
- pobl ddifreintiedig yn byw y tu allan i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig;
- siâp 'cromlin-s' y dosbarthiad yn cael ei weld i ryw raddau ym mhob un o'r dangosyddion amddifadedd;
- y gromlin serth ym mhen mwyaf difreintiedig y dosbarthiad yn golygu y gallai newidiadau mawr yng ngwerth y dangosydd achosi newidiadau bach yn unig mewn safleoedd. Yn y pen lleiaf difreintiedig, lle mae'r gromlin yn fwy gwastad, y gwrthwyneb sy'n wir, a gallai newidiadau bach yng ngwerth y dangosydd arwain at newidiadau mawr mewn safleoedd. Er enghraifft, mae amrywiaeth eang o ran y ganran o bobl sy'n difreintiedig o ran incwm yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig

o'r ACEHI. Mae'r canrannau yn amrywio o 69 y cant ar gyfer y ACEI mwyaf difreintiedig i 32 y cant ar gyfer y ACEI ar safle 191).

**Siart 1.1 Dosbarthiad maes incwm MALIC 2014 (d)**




**Nodwch**

d – Mae’r siart wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Yn ogystal â nodi safle ar gyfer amddifadedd lluosog cymharol yn ardaloedd bach Cymru, un o gryfderau’r Mynegai yw’r ffaith fod safleoedd hefyd yn cael eu cyfrifo ar gyfer yr wyth gwahanol fath o amddifadedd sy’n ffurfio’r Mynegai cyffredinol. Mae’n bosibl defnyddio safleoedd y meysydd hyn i ddeall yr hyn sy’n llywio amddifadedd mewn ardal benodol. Er enghraifft, mae’r tair ardal yn Nhabl 1.1 isod yn debyg o ran eu safleoedd MALIC, ond mae’r patrwm amddifadedd ar draws eu meysydd yn bur wahanol.

**Tabl 1.1: MALlC 2014 - enghreifftiau o batrymau amddifadedd ar draws meysydd**

| AGEHI<br>Awdurdod lleol | Penfro: Monkton<br>Sir Benfro | Cwm-bach 2<br>Rhondda Cynon Taf | Llanrhymni 6<br>Caerdydd |
|---|---|---|---|
| Graddfa Cyffredinol MALlC 2014 | 80 | 81 | 84 |
| Graddfa Incwm | 62 | 185 | 59 |
| Graddfa Cyflogaeth | 84 | 55 | 218 |
| Graddfa Iechyd | 59 | 55 | 228 |
| Graddfa Addysg | 236 | 253 | 13 |
| Graddfa Mynediad i Wasanaethau | 498 | 325 | 1371 |
| Graddfa Diogelwch Cymunedol | 455 | 126 | 277 |
| Graddfa Amgylchedd Ffisegol | 1727 | 162 | 321 |
| Graddfa Tai | 160 | 970 | 82 |

**Nodwch**
d – Mae rhai ffigurau yn y tabl hwn wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

## 1.5 Ychwanegu gwybodaeth gyd-destunol

I sicrhau'r defnydd gorau o'r Mynegai, dylid ei ddefnyddio ar y cyd â mathau eraill o wybodaeth, naill ai o ddangosyddion y Mynegai, data arall a gyhoeddwyd, neu wybodaeth leol. Mae cyfeiriadau at wybodaeth gefndir/cyd-destun a allai fod yn ddefnyddiol wedi eu cynnwys ar ddiwedd yr adrannau sy'n dadansoddi pob maes unigol yn yr adroddiad hwn.

## 1.6 Enghreifftiau o ddefnyddio MALlC

Dyma rai enghreifftiau o ffyrdd pwysig y defnyddiwyd mynegeion blaenorol:

- datblygu a monitro rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- cyfrifo teuluoedd ysgolion ac fel ffactor cyd-destunol wrth gyfrifo gwerth ychwanegol ysgolion yn flynyddol;
- mesur anghydraddoldebau iechyd;
- asesiadau anghenion llywodraeth leol; a
- chynllunio adnoddau plismona cymunedol.

## 1.7 Cyfyngiadau MALlC

Mae'n bwysig cofio nad MALlC yw'r unig ffordd o fesur amddifadedd. Cafodd ei ddatblygu at bwrpas penodol, sef mesur lle mae amddifadedd wedi'i grynhoi ar lefel ardal fach.

<u>Unigolion difreintiedig</u>: Gall unigolion na fyddent yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig fod yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, a gallai unigolion a fyddai'n cael eu hystyried yn ddifreintiedig fod yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae tua 1 o bob 5 o bobl ar aelwydydd sy'n derbyn budd-dal incwm yn byw yn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er ei bod hi'n wir dweud bod amddifadedd wedi'i grynhoi llawer mwy mewn rhai ardaloedd na'i gilydd, mae

hynny’n golygu bod 4 o bob 5 o bobl ar aelwydydd sy’n derbyn budd-dal incwm yn byw y tu allan i’r ardaloedd hyn. Mae'n bwysig cofio hyn wrth dargedu adnoddau. Trwy dargedu’r ardaloedd 'mwyaf difreintiedig', bydd rhai aelwydydd yn yr ardaloedd hynny’n cael eu cynnwys er nad ydynt o reidrwydd yn ddifreintiedig, a bydd llawer o aelwydydd difreintiedig sy’n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig ar eu colled.

Unigolion â sawl amddifadedd: Nid yw MALlC yn nodi unigolion sydd â sawl amddifadedd. Yn hytrach, mae’n nodi’r ardaloedd lle mae sawl gwahanol fath o amddifadedd wedi’u crynhoi. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu cysylltu’r data sydd yn y Mynegai ar lefel unigolyn er mwyn deall graddau amddifadedd lluosog unigolion.

Amddifadedd absoliwt: Nid yw MALlC yn mesur faint o amddifadedd sydd mewn ardal. Er enghraifft, nid yw’n caniatáu ar gyfer datganiadau fel “mae ardal A ddwywaith mor ddifreintiedig ag ardal B”. Dim ond i ddweud “mae ardal A yn fwy difreintiedig nag ardal B” y gellir defnyddio’r safleoedd. Hyd yn oed os yw safle’r ardal yn aros yr un fath mewn cyhoeddiadau MALlC dilynol, gallai lefelau amddifadedd yr ardal fod wedi cynyddu neu leihau, ond ddim digon i effeithio ar y gymhariaeth ag ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae modd dadansoddi’r dangosyddion unigol o fewn MALlC er mwyn cymharu rhwng ardaloedd a thros amser.

Golud: Mae’n bwysig cofio nad yw diffyg amddifadedd yn gyfystyr â bod yn oludog. Nid yw’n dilyn mai’r ardal leiaf difreintiedig yw’r ardal fwyaf goludog yng Nghymru o reidrwydd. Mae hefyd yn golygu bod MALlC yn gwahaniaethu’n fwyaf effeithiol rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, a dylid bod yn eithriadol o ofalus wrth ddod i gasgliadau am y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd llai difreintiedig.

### 1.8 Cymharu dros amser

Ni ellir defnyddio system safleoedd i fonitro newid dros amser. Y rheswm am hyn yw nad oes modd gwybod a yw ardal benodol wedi newid safle oherwydd newidiadau yn yr ardal ei hun, ynteu oherwydd bod ardaloedd eraill wedi symud i fyny ac i lawr yn y rhestr, gan newid safle’r ardal heb iddi weld unrhyw newid gwirioneddol.

Mae data dangosyddion MALlC bellach yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ar wefan StatsCymru, pan fo modd. Gan fod y dangosyddion yn cynrychioli lefelau absoliwt o’r mesuriadau amrywiol o amddifadedd, gellir eu defnyddio i fonitro newid dros amser.

### 1.9 Cydgasglu’r canlyniadau ar gyfer ardaloedd mwy

Nid oes modd cydgasglu safleoedd y Mynegai ar gyfer ardaloedd mwy trwy nodi cyfartaledd safleoedd yr ACEHI. Y dull o lunio'r Mynegai sy'n gyfrifol am hyn. Ceir dau ddull o gymharu ardaloedd mwy.

Y dull cyntaf yw cyfrifo canran yr ACEHI mewn ardal fwy sy'n ymddangos yn y 10 neu’r 20 y cant (dyweder) o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gwnaed hyn ar gyfer yr awdurdodau lleol yn adrannau dadansoddi'r adroddiad hwn ac yn yr adnodd rhyngweithiol.

Er enghraifft, os oes mwy na 10 y cant o’r ACEHI mewn ardal benodol yn ymddangos yn 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gellir ei

hystyried yn ardal o amddifadedd cymharol. Os yw hyn yn wir am lai na 10 y cant o'r ACEHI, gellir ei hystyried yn ardal lai difreintiedig, yn gymharol.

Yr ail ddull o gymharu ardaloedd mwy yw ystyried y dangosyddion unigol, y gellir eu cydgasglu (fel y'u cyhoeddir ar StatsCymru). Mae'r dangosyddion yn cael eu cyhoeddi ar lefel ardaloedd bach, ond hefyd ar gyfer amrywiaeth o grwpiau defnyddiol eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a mathau o anheddiad (y gellir eu defnyddio i ddisgrifio ardal fel un wledig neu drefol).

### 1.10 Sgorau amddifadedd

Y Mynegai cyffredinol a safleoedd y meysydd yw prif gynnyrch MALlC. Cynhyrchir sgorau fel rhan o'r broses o gyfrifo'r safleoedd hyn. Fe'u cyhoeddir am ddau reswm yn unig:

- at ddibenion tryloywder (er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gweld pob cam o'r broses o lunio'r mynegai); a
- fel bod defnyddwyr yn gallu arbrofi â gwahanol systemau pwysoli ar gyfer y Mynegai, os oes angen.

Cam yn y broses o lunio'r Mynegai, yn hytrach na chynnyrch ynddynt eu hunain, yw'r sgorau MALlC. Nid yw'r sgorau'n cynrychioli lefel o amddifadedd lluosog (er enghraifft, os yw sgôr ardal A ddwywaith yn fwy na sgôr ardal B, nid yw'n golygu o anghenraid bod gan ardal A ddwywaith yn gymaint o amddifadedd ag ardal B). Mae hyn yn golygu nad yw'r sgorau'n cynnwys mwy o wybodaeth na'r safleoedd am lefelau o amddifadedd lluosog. Ar gyfer lefelau o amddifadedd, rhaid defnyddio data sylfaenol y dangosyddion.

### 1.11 Amddifadedd ar draws y DU

Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyd yn llunio eu mynegai amddifadedd lluosog eu hunain. Fodd bynnag, ni ellir cymharu â'r rhain yn uniongyrchol am y rhesymau canlynol:

- maent yn cael eu llunio ar gyfer ardaloedd daearyddol gwahanol; (nid oes unrhyw ddaearyddiaeth ardal fach sy'n gyson ar draws y pedair gwlad);
- mae'r dangosyddion yn wahanol ac ni chesglir yr holl ddata mewn ffordd gyson ledled y DU (er enghraifft, mae systemau cyfiawnder ac addysg yn yr Alban yn wahanol i'r systemau yng Nghymru a Lloegr, felly nid oes modd cymharu llawer o'r dangosyddion troseddu ac addysg);
- mae'r Mynegeion wedi datblygu yn unol â'r hyn sy'n llywio polisïau ym mhob un o'r gwledydd; wrth i ddatganoli esblygu, mae'r gwahaniaethau hyn wedi tyfu;
- caiff y Mynegeion eu llunio yn unol ag amserlenni gwahanol, felly nid yw'r data'n cyfeirio at union yr un flwyddyn ar draws y DU; eto, gofynion polisi gwahanol y gwledydd gwahanol sy'n llywio hyn yn aml.

Fodd bynnag, bydd defnyddwyr yn aml yn awyddus i gymharu amddifadedd ar draws y DU, er mwyn dyrannu cyllid er enghraifft. Mae rhagor o arweiniad ar gymharu MALl ar draws y DU ar gael ar wefan Neighbourhood Statistics.

### 1.12 Mwy o wybodaeth

Mae pecyn o gynhyrchion ar gael yn ymwneud â MALlC 2014. Mae'r rhain ar gael yn www.cymru.gov.uk/mallc

- Deunyddiau i roi arweiniad, gan gynnwys:
  - Dogfen yn egluro sut y gellir, a sut na ellir, defnyddio MALlC
  - Ffeithlun yn egluro sut y caiff MALlC ei lunio
  - Cwestiynau Cyffredin

- Crynodeb o'r canlyniadau, gan gynnwys:
  - Y prif gyhoeddiad sy'n crynhoi'r canlyniadau
  - Crynodeb gweithredol o'r prif gyhoeddiad

- Adnodd rhyngweithiol (newydd) – bydd hwn yn caniatáu i ddefnyddwyr weld y canlyniadau ar gyfer detholiad o ardaloedd

- Data MALlC ar StatsCymru

- Amddifadedd mewn Ardaloedd Gwledig
  - Erthygl ystadegol am amddifadedd mewn ardaloedd gwledig
  - Papur technegol: 'Exploration of unemployment in Wales by settlement type for small areas'.

Ceir rhestr gyflawn o'r cynhyrchion perthnasol yn Atodiad A.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru neu 02920 82 3371


# 2 Mynegai Cyffredinol MALlC 2014 (r)

## 2.1 Methodoleg y Mynegai

Er mwyn cael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y Mynegai, ei feysydd, a'r dangosyddion sylfaenol, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

### Dangosyddion

Ceir wyth gwahanol faes (neu fath) o amddifadedd o fewn MALlC ar hyn o bryd. Mae pob maes wedi ei ffurfio o amrywiaeth o wahanol ddangosyddion. Nodir pwysoliadau'r wyth maes isod:




### Newidiadau methodolegol rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014

Mae’r fethodoleg gyffredinol ar gyfer llunio MALlC 2014 yr un fath â methodoleg MALlC 2011. Fodd bynnag, gwnaed newidiadau i rai o'r dangosyddion o fewn y meysydd. Mae'r rhain yn cael eu disgrifio ym mhenodau'r meysydd perthnasol, ac yn Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).


## 2.2 Prif ganlyniadau’r Mynegai Cyffredinol

- Ym MALlC, roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd a dinasoedd mawr de Cymru, ac mewn rhai trefi arfordirol a rhai ar y ffin yng ngogledd Cymru.
- Roedd y darlun cyffredinol yr un fath ag yr oedd ar gyfer MALlC 2011, gyda chwech o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig ym MALlC 2011 yn parhau yn y deg mwyaf difreintiedig ym MALlC 2014.
- Roedd yr ACEHI fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn rhan o Sant Iago 3, Caerffili (graddfa 2 yn MALlC 2011).
- Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Blaenau Gwent (23.4 y cant), ac nid oedd gan Sir Fynwy yr un ACEHI yn y degradd mwyaf difreintiedig.

Mae'r map ar y dudalen ganlynol yn dangos y mynegai cyffredinol.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru




**Nodwch**
(r) Mae'r map wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

## 2.3 Cymhariaeth gyffredinol rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Ni ellir defnyddio MALlC gymharu amddifadedd ar gyfer un ardal gyda'i amddifadedd mewn rhifyn blaenorol o'r Mynegai. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad canlynol yn rhoi darlun o sut mae grwpiau amddifadedd MALlC 2014 yn cymharu â MALIC 2011. Mae dull tebyg wedi cael ei ddefnyddio yn yr adrannau dadansoddi arall.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob grŵp amddifadedd ar gyfer MALlC 2011 a MALlC 2014. Mae'r rhifau lletraws, mewn testun trwm, yn dangos nifer yr ACEHI sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp mwy difreintiedig.

Sylwer bod newidiadau diweddar mewn nifer fach o ffiniau ACEHI, yn dilyn Cyfrifiad 2011, wedi effeithio ar y grwpiau amddifadedd hyn. Mae'r ACEHI newydd hynny y mae'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol â MALlC 2011 wedi eu hepgor o'r gymhariaeth. Mae'r mannau tywyll yn y tabl yn dangos nifer yr ACEHI hyn a gafodd eu hepgor o'r gymhariaeth. Gweler Atodiad B am fwy o wybodaeth.

**Tabl 2.1: Tabl o'r Symudiadau yn y Degraddau rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014 (d)**

| | | MALlC 2014 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Hen ACEHI* | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| MALIC 2011 | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-190) | **166** | 21 | 0 | 0 | 0 | 3 | 190 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd191-380) | 22 | **131** | 31 | 1 | 0 | 5 | 190 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 381-570) | 0 | 33 | **114** | 39 | 0 | 4 | 190 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 571-950) | 0 | 0 | 39 | **281** | 51 | 9 | 380 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 951-1,896) | 0 | 0 | 1 | 51 | **866** | 28 | 946 |
| | ACEHI newydd* | 3 | 6 | 6 | 10 | 37 | 0 | 62 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,896) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | 49 | **1,958** |

**Nodwch:** (d) – Mae rhai ffigurau yn y tabl hwn wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

* Nid oes modd cymharu'r ACEHI hyn rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014. Hen ACEHI yw'r rhai a oedd yn bresennol ym MALlC 2011 ond sydd wedi eu disodli ers hynny gan ACEHI newydd. ACEHI newydd yw'r rhai hynny sy'n newydd i MALlC 2014.

Mae'r rhan fwyaf o'r ACEHI wedi aros yn yr un grŵp rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014 (y ffigurau lletraws). Dim ond dwy ACEHI sydd wedi symud mwy nag un grŵp amddifadedd. Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod y safleoedd yn gymharol, ac na ellir dod i gasgliad ynglŷn â lefelau amddifadedd yn sgil newidiadau yn y safleoedd. Gellir dadansoddi'r dangosyddion sylfaenol, sy'n mesur amrywiol fathau o amddifadedd, er mwyn deall sut mae lefelau amddifadedd wedi newid mewn ardaloedd unigol.

O'r ddwy ardal sydd wedi symud dau grŵp amddifadedd, symudodd un o grŵp y 50 y cant lleiaf difreintiedig ym MALIC 2011 i grŵp yr 20-30 y cant mwyaf difreintiedig ym MALlC 2014. ACEHI yr Wyddgrug Broncoed 2 yw hon, sydd wedi ei lleoli yn Sir y Fflint. Newidiodd ei safle cyffredinol o 1046 yn 2011 i 470 yn 2014. Aeth yn gymharol fwy difreintiedig ym mhob un o'r wyth maes yn y drefn ganlynol, o'r newid mwyaf i'r newid lleiaf: Diogelwch Cymunedol, Incwm, Tai, Iechyd, Addysg, Cyflogaeth, Mynediad Daearyddol i Wasanaethau, ac Amgylchedd Ffisegol.

Symudodd yr ACEHI arall dan sylw o grŵp y 10-20 y cant mwyaf difreintiedig ym MALlC 2011 i grŵp y 30-50 y cant mwyaf difreintiedig ym MALlC 2014. ACEHI y Castell 8 yn Abertawe yw hon, a newidiodd ei safle yn y Mynegai cyffredinol o 289 yn 2011 i 614 yn 2014. Aeth yn gymharol llai difreintiedig mewn pump o'r meysydd yn y drefn ganlynol, o'r newid mwyaf i'r lleiaf: Amgylchedd Ffisegol, Addysg, Cyflogaeth, Incwm ac Iechyd. Fodd bynnag, aeth yn gymharol fwy difreintiedig yn y meysydd Mynediad Daearyddol i Wasanaethau, Diogelwch Cymunedol a Thai.

## 2.4 Dadansoddiad AGEHI MALlC 2014 cyffredinol

Gallir lawrlwytho safleoedd y mynegai a'r meysydd (MALlC 2011) a'r dangosyddion (MALlC: data dangosyddion blynyddol) oddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru. Mae'r is-adran ganlynol yn disgrifio rhai o'r newidiadau i ACEHI yn y Mynegai ers MALlC 2011.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru, fel y'u pennir ym Mynegai 2014, yn ogystal â phedair ACEHI a restrwyd rhwng 1 a 10 ym MALlC 2011, ond sydd wedi symud o'r grŵp hwnnw yn 2014.

### Tabl 2.2: Graddfeydd mwyaf difreintiedig MALlC 2014 (d)

| AGEHI | Awdurdod Lleol | Enw AGEHI | Graddfa MALIC 2011 | Graddfa MALIC 2014 |
|---|---|---|---|---|
| W01001421 | Caerffili | Sant Iago 3 | 2 | 1 |
| W01000240 | Sir Ddinbych | Rhyl Gorllewin 2 | 1 | 2 |
| W01000413 | Wrecsam | Queensway 1 | 9 | 3 |
| W01001874 | Caerdydd | Y Sblot 6 | 36 | 4 |
| W01001274 | Rhondda Cynon Taf | Pendyrus 1 | 10 | 5 |
| W01000991 | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerau (Pen-y-bont ar Ogw | 8 | 6 |
| W01001428 | Caerffili | Twyn Carno 1 | 3 | 7 |
| W01001303 | Merthyr Tudful | Ynyswen 2 | 17 | 8 |
| W01001222 | Rhondda Cynon Taf | Pen-y-waun 2 | 15 | 9 |
| W01001662 | Casnewydd | Pilgwenlli 4 | 27 | 10 |
| W01001308 | Merthyr Tudful | Penydarren 1 | 4 | 14 |
| W01001209 | Rhondda Cynon Taf | Penrhiwceiber 1 | 5 | 15 |
| W01000862 | Abertawe | Townhill 1 | 6 | 29 |
| W01000239 | Sir Ddinbych | Rhyl West 1 | 7 | 11 |

**Nodwch**
(d) – Mae rhai ffigurau yn y tabl hwn wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

- Sant Iago 3 yw'r ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru (roedd yn ail ar restr MALlC 2011).
- Mae chwech o'r deg ardal fwyaf difreintiedig ym MALlC 2011 yn dal o fewn y deg ardal fwyaf difreintiedig ym MALlC 2014.
- Mae pedair ardal wedi symud oddi ar restr y deg ardal fwyaf difreintiedig ers MALlC 2011. Mae pob un o'r deg ardal fwyaf difreintiedig ym MALlC 2014 mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Sylwer nad yw MALlC yn mesur lefel yr amddifadedd mewn ardal fechan. Yn hytrach, mae'n mesur a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o'i chymharu â phob ardal fechan arall yng Nghymru. Nid oes modd gwybod, o'r ffaith bod safle ardal benodol wedi newid, pa un a yw wedi dod yn fwy neu'n llai difreintiedig - rhaid defnyddio'r dangosyddion sylfaenol ar gyfer hyn.

Gallwn edrych ar y deg ACEHI fwyaf difreintiedig yn fwy manwl. Sylwer nad yw ffiniau yr un o'r ACEHI hyn wedi newid ers MALlC 2011.

**1. Sant Iago 3, Caerffili**

St. James 3 yw'r ACEHI fwyaf difreintiedig yn y maes Addysg. Mae'r ardal o fewn y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig o ran meysydd Incwm, Cyflogaeth, Iechyd ac Addysg, ac mae gan y rhain i gyd, wedi eu cyfuno, bwysoliad o 75 y cant yn y mynegai cyffredinol. Mae'r ardal hefyd o fewn y 10 y cant o'r ACEHI mwyaf difreintiedig o ran y maes Diogelwch Cymunedol. Ychydig o newid a welwyd yn safle cyffredinol yr ACEHI hon ers MALlC 2011, ond mae ei amddifadedd cymharol wedi cynyddu yn sylweddol yn y meysydd Tai a Mynediad Daearyddol i Wasanaethau. Gwelwyd patrwm tebyg yn y maes addysg, gyda'r raddfa yn symud o 24 yn MALlC 2011 i 1 yn MALlC 2014.

**2. Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych**

Gorllewin y Rhyl 2 yw'r ACEHI fwyaf difreintiedig yn y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Iechyd, ac mae hefyd o fewn grŵp y 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig o ran y meysydd Addysg, Tai a Diogelwch Cymunedol. Gyda'i gilydd, mae gan y meysydd hyn bwysoliad o 85 y cant yn y mynegai cyffredinol. Ychydig iawn o newid a welwyd yn safle cyffredinol yr ACEHI hon ers MALlC 2011, ond mae ei amddifadedd cymharol wedi gostwng yn sylweddol yn y maes Amgylchedd Ffisegol, gostwng ychydig yn y maes addysg, a chynyddu'n sylweddol yn y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau.

**3. Queensway 1, Wrecsam**

Mae Queensway 1 o fewn grŵp y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y meysydd Incwm ac Addysg, ac o fewn y 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ym meysydd Cyflogaeth, Iechyd, Tai a Diogelwch Cymunedol. Gyda'i gilydd, mae gan y meysydd hyn bwysoliad o 85 y cant yn y mynegai cyffredinol. Ychydig iawn o newid a welwyd yn safle cyffredinol yr ACEHI hon ers MALlC 2011, ond mae ei amddifadedd cymharol wedi gostwng yn sylweddol yn y maes Amgylchedd Ffisegol, ac i ryw raddau yn y maes tai. Mae ei amddifadedd cymharol wedi cynyddu yn sylweddol yn y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau, a chynyddu ychydig yn y maes iechyd.

**4. Y Sblot 6, Caerdydd**

Mae'r Sblot 6 o fewn y 50 o ACEHI mwyaf difreintiedig ym mhob un o'i feysydd ar wahân i Fynediad Daearyddol i Wasanaethau. Gyda'i gilydd, mae gan bob un o'r meysydd hyn bwysoliad o 90 y cant yn y mynegai cyffredinol. Mae'r ACEHI yn newydd i'r rhestr hon, ac mae ei safle cyffredinol wedi symud yn sylweddol ers MALlC 2011 (gan ddod yn gymharol mwy difreintiedig). Gellid priodoli hynny i gynnydd sylweddol o ran amddifadedd cymharol yn y meysydd Cyflogaeth ac Addysg (sydd â phwysoliad uchel yn y Mynegai), yn ogystal â newidiadau o'i chymharu ag ACEHI eraill. Mae'r ardal hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol o ran amddifadedd cymharol yn y meysydd Mynediad Daearyddol i Wasanaethau a Diogelwch Cymunedol. Yn wir, daeth yn gymharol mwy amddifad ym mhob un o'r meysydd o'i gymharu â MALlC 2011.

Mae hwn yn enghraifft o AGEHI lle mae safle cyffredinol MALlC yn is (mwy amddifad) na phob un o'r graddfeydd maes unigol. Mae hyn yn bennaf oherwydd

amddifadedd cymharol Sblot 6 o gymharu â AGEHI â graddfeydd tebyg. Mae amddifadedd cymharol Sblot 6 yn sylweddol uwch yn y meysydd Diogelwch Cymunedol, Amgylchedd Ffisegol a Thai o gymharu â’r ACEHI agos ato.

### 5. Pendyrus 1, Rhondda Cynon Taf

Mae Pendyrus 1 o fewn grŵp y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y meysydd Incwm a Chyflogaeth, ac o fewn yr 20 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y meysydd Iechyd ac Addysg. Gyda'i gilydd, mae gan y meysydd hyn bwysoliad o 75 y cant yn y mynegai cyffredinol. Mae'r ACEHI hefyd o fewn y 10 y cant o'r ACEHI mwyaf difreintiedig yn y maes Diogelwch Cymunedol. Ychydig iawn o newid a welwyd yn safle cyffredinol Pendyrus 1 ers MALlC 2011, ond mae ei amddifadedd cymharol wedi cynyddu’n sylweddol yn y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau, cynyddu ychydig yn y maes iechyd a gostwng yn y maes tai. Mae hefyd wedi dod yn gymharol fwy difreintiedig yn y maes incwm, gyda graddfa o 11 yn MALlC 2011 a 4 yn MALlC 2014.

### 6. Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1, Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 o fewn grŵp y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y meysydd Cyflogaeth ac Iechyd, ac o fewn y 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Incwm, Addysg a Diogelwch Cymunedol. Gyda'i gilydd mae gan y meysydd hyn bwysoliad o 80 y cant yn y mynegai cyffredinol. Mae'r ACEHI hon wedi aros yn safle 8 yn y mynegai cyffredinol ers MALlC 2011. Ychydig iawn o newid a welwyd yn safle cyffredinol yr ACEHI hon ers MALlC 2011, ond mae wedi mynd yn gymharol fwy difreintiedig yn y maes incwm. Mae ei amddifadedd cymharol wedi gostwng yn sylweddol yn y meysydd tai a Mynediad Daearyddol i Wasanaethau, ac i raddau llai yn y meysydd Amgylchedd Ffisegol a Diogelwch Cymunedol.

### 7. Twyn Carno 1, Caerffili

Mae Twyn Carno 1 o fewn grŵp y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y meysydd Cyflogaeth ac Addysg, ac o fewn y 10 y cant o'r ACEHI mwyaf difreintiedig yn y meysydd Incwm, Iechyd a Diogelwch Cymunedol. Gyda'i gilydd mae gan y meysydd hyn bwysoliad o 80 y cant yn y mynegai cyffredinol. Ychydig iawn o newid a welwyd yn safle cyffredinol yr ACEHI hon ers MALIC 2011, ond mae ei amddifadedd cymharol wedi cynyddu yn sylweddol yn y meysydd Tai a Mynediad Daearyddol i Wasanaethau ac wedi gostwng ychydig yn y maes Incwm.

### 8. Ynyswen 2, Merthyr Tudful

Mae Ynyswen 2 o fewn grŵp y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y maes Iechyd, ac o fewn y 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y maes Incwm, Cyflogaeth, Addysg a Thai. Gyda'i gilydd, mae gan y meysydd hyn bwysoliad o 80 y cant yn y mynegai cyffredinol. Mae'r ACEHI hon wedi symud i grŵp y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig ers MALlC 2011. Gellid priodoli hyn yn arbennig i gynnydd o ran amddifadedd gymharol yn y maes Incwm (sydd â phwysoliad uchel yn y mynegai), yn ogystal ag yn y meysydd Addysg, Tai, Amgylchedd Ffisegol a Mynediad Daearyddol i Wasanaethau.

**9. Pen-y-waun 2, Rhondda Cynon Taf**

Mae Pen-y-waun 2 o fewn grŵp y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y maes Addysg, ac o fewn yr 20 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Iechyd. Gyda'i gilydd mae gan y meysydd hyn bwysoliad o 75 y cant yn y mynegai cyffredinol. Mae'r ACEHI hon wedi symud i grŵp y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn gyffredinol ers MALlC 2011. Mae hyn yn bennaf oherwydd iddo ddod ychydig yn fwy amddifad yn gymharol yn y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Addysg (meysydd â phwysoliadau uchel yn y mynegai), yn ogystal ag yn y meysydd Tai, Amgylchedd Ffisegol a Mynediad Daearyddol i Wasanaethau.

**10. Pillgwenlly 4, Casnewydd**

Mae Pillgwenlly 4 yn gorwedd o fewn y 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer Incwm, Cyflogaeth, Addysg, Iechyd, Tai a Diogelwch Cymunedol. Gyda'i gilydd mae gan y meysydd hyn bwysoliad o 85 y cant yn y mynegai cyffredinol. Mae Pillgwenlly 4 wedi symud o reng 27 yn 2011 i 10 ym 2014. Yn benodol, gallai hyn fod am ei fod yn gymharol fwy difreintiedig yn y maesydd incwm a chyflogaeth (sydd â pwysoliad uchel yn y Mynegai), yn ogystal ag yn y Iechyd, Addysg, Tai, a Mynediad i Wasanaethau.

**Penydarren 1, Merthyr Tudful**

Newidiodd safle Penydarren 1 o 4 i 14 gan adael rhestr y deg ardal mwyaf difreintiedig ym MALlC. Gellir priodoli hyn i'r ffaith i'r AGEHI ddod yn gymharol lai difreintiedig yn y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Iechyd (meysydd â phwysoliad uchel yn y Mynegai) yn ogystal â'r meysydd Mynediad Daearyddol i Wasanaethau a Diogelwch Cymunedol. Mae'n werth nodi mai'r AGEHI hon yw'r pedwerydd ardal mwyaf difreintiedig yn y maes Iechyd, a'i bod o fewn y 35 o ACEHI mwyaf difreintiedig o ran y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Iechyd.

**Penrhiwceiber 1, Rhondda Cynon Taf**

Newidiodd safle Penrhiwceiber o 5 i 15, gan adael rhestr y deg ardal fwyaf difreintiedig ym MALlC 2014 felly. Gellir priodoli hyn i'r ffaith iddo ddod yn gymharol llai difreintiedig mewn cyfres eang o feysydd: Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Tai, Amgylchedd Ffisegol a Diogelwch Cymunedol. Cynyddodd ei amddifadedd cymharol yn sylweddol yn y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau. Mae'n werth nodi mai'r ACEHI hon yw'r ail ardal fwyaf difreintiedig yn y maes Iechyd o hyd, er gwaethaf y newid cyffredinol, a'i bod yn dal o fewn y 25 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Addysg.

**Townhill 1, Abertawe**

Newidiodd safle Townhill o 6 i 29, gan adael rhestr y deg ardal fwyaf difreintiedig ym MALlC 2014. Gellir priodoli hyn yn arbennig i'r ffaith iddo ddod yn gymharol llai difreintiedig yn y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Addysg (meysydd â phwysoliad uchel yn y mynegai). Gostyngodd ei amddifadedd cymharol yn y meysydd Tai, Mynediad Daearyddol i Wasanaethau a Diogelwch Cymunedol, a daeth yn gymharol fwy difreintiedig yn y meysydd Iechyd ac Amgylchedd Ffisegol. Mae'n werth nodi mai'r ACEHI hon yw'r bedwaredd ardal fwyaf difreintiedig yn y maes Iechyd ar hyn o

bryd, a’i bod hefyd o fewn y 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer meysydd Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg a Diogelwch Cymunedol.


### Gorllewin y Rhyl 1, Sir Ddinbych

Newidiwyd Gorllewin y Rhyl 1 o safle 7 i safle 11, felly gadawodd y deg ACEHI mwyaf difreintiedig 2014. Mae ei amddifadedd cymharol wedi gostwng yn y mesydd Tai, Amgylchedd Ffisegol a Diogelwch Cymunedol, a newid fawr ddim neu ddim o gwbl ym y meysydd gyda’r pwysiad mwyaf, sef Incwm a Chyflogaeth. Daeth yn gymharol fwy difreintiedig yn y maesydd Iechyd, Addysg a Mynediad i Wasanaethau. Mae'n dal i gorwedd o fewn grŵp y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y meysydd Iechyd, Addysg, Tai a Diogelwch Cymunedol.

## 2.5 Dadansoddiad Awdurdodau Lleol

Mae'r plot blwch isod yn dangos dosbarthiad y safleoedd yn y mynegai cyffredinol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi eu canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol ac mae'r llinellau'n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 2.1: Plot blwch o safleoedd y mynegai cyffredinol, fesul awdurdod lleol (d)**




**Nodwch**
(d) – Mae siart hon wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Mae'r tabl isod yn dangos canran yr ardaloedd bychain (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol o fewn 10 y cant (safleoedd 1-191), 20 y cant (safleoedd 1-382), 30 y cant (safleoedd 1-573) a 50 y cant (safleoedd 1-955) o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer Mynegai cyffredinol MALlC 2014.

**Tabl 2.3: Tabl yr ACEHI difreintiedig fesul awdurdod lleol (d)**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-191 | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-382 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-573 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 2.3 | 15.9 | 18.2 | 45.5 |
| Gwynedd | 73 | 4.1 | 4.1 | 5.5 | 34.2 |
| Conwy | 71 | 5.6 | 14.1 | 23.9 | 42.3 |
| Sir Ddinbych | 58 | 13.8 | 15.5 | 20.7 | 46.6 |
| Sir y Fflint | 92 | 2.2 | 12.0 | 19.6 | 34.8 |
| Wrecsam | 85 | 5.9 | 12.9 | 27.1 | 43.5 |
| Powys | 79 | 1.3 | 3.8 | 11.4 | 20.3 |
| Ceredigion | 46 | 2.2 | 2.2 | 6.5 | 39.1 |
| Sir Benfro | 71 | 5.6 | 8.5 | 15.5 | 36.6 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 4.5 | 10.7 | 22.3 | 52.7 |
| Abertawe | 148 | 12.2 | 25.0 | 28.4 | 48.6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 13.2 | 29.7 | 40.7 | 67.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 10.2 | 22.7 | 42.0 | 56.8 |
| Bro Morgannwg | 79 | 5.1 | 15.2 | 19.0 | 36.7 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 16.9 | 29.9 | 47.4 | 72.1 |
| Merthyr Tudful | 36 | 22.2 | 30.6 | 61.1 | 80.6 |
| Caerffili | 110 | 12.7 | 28.2 | 39.1 | 67.3 |
| Blaenau Gwent | 47 | 23.4 | 46.8 | 66.0 | 85.1 |
| Torfaen | 60 | 5.0 | 25.0 | 40.0 | 56.7 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 0.0 | 7.1 | 21.4 |
| Casnewydd | 95 | 14.7 | 30.5 | 38.9 | 56.8 |
| Caerdydd | 214 | 17.8 | 27.6 | 36.4 | 46.3 |
| **Cymru** | **1,909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

**Nodwch**

(d) – Mae rhai ffigurau yn y tabl hwn wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Un modd o ystyried data MALlC ar lefel awdurdodau lleol yw edrych ar gyfran yr ACEHI yn yr awdurdod lleol sydd o fewn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (neu’r 20 y cant ac ati) o holl ACEHI Cymru. Gellid ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae’r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â chyfran fwyaf yr ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Blaenau Gwent (23.4 y cant).
- Nid oedd yr un o ACEHI Sir Fynwy yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig.

- Dim ond 20.3 y cant o ACEHI Powys oedd yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Blaenau Gwent oedd â'r ganran uchaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (85.1 y cant). Yr agosaf wedyn yw Merthyr Tudful, gydag 80.6 y cant o'i ACEHI yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Yn gyffredinol, mae crynodiadau uwch o amddifadedd i'w gweld yn y cymoedd ac yn yr awdurdodau lleol trefol. Trafodir hyn ymhellach yn yr Erthygl Ystadegol 'Welsh Index of Multiple Deprivation: a guide to analysing deprivation in rural areas' (Saesneg yn unig).




# 3 Y Maes Incwm (r)


## 3.1 Cyflwyniad

Mae’r maes incwm yn canolbwyntio ar gyfran y bobl sydd ag incwm islaw lefel wedi ei diffinio. I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes incwm, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

Mae gan y maes incwm bwysoliad gwerth 23.5 y cant yn y Mynegai.

## 3.2 Dangosyddion y maes incwm

Mae’r maes incwm yn cynnwys un dangosydd, ag iddo dair elfen.




Mae pob elfen o’r dangosydd hwn yn cael eu cyfansymio ac yna’u rhannu gan boblogaeth oedran gweithio’r ACEHI, i roi un dangosydd. Un waith yn unig y caiff unigolion sy’n derbyn sawl budd-dal a/neu gredydau treth eu cyfrif o fewn y dangosydd. Nid effeithiodd Credyd Cynhwysol ar y dadansoddiadau yma.


- Daw’r data ynglŷn â budd-daliadau cysylltiedig ag incwm gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae’r data’n seiliedig ar gyfartaledd yr unigolion a oedd yn derbyn y budd-daliadau hyn yn ystod mis Tachwedd 2012, mis Chwefror 2013, mis Mai 2013 a mis Awst 2013.
- Daw’r data am gredydau treth gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi, gan ddefnyddio data am gredydau treth 2012/13 ar 31 Awst 2012. Mae hyn yn cynnwys nifer y Plant a’r Oedolion mewn teuluoedd sy’n derbyn Credydau Treth Gwaith a Chredydau Treth Plant, ac y mae eu hincwm 60 y cant yn is na’r incwm canolrif ar gyfer Cymru (Cyn Costau Tai).
- Cafwyd y data am Geiswyr Lloches a Gynorthwyir gan y Swyddfa Gartref. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny a oedd yn derbyn cymorth o dan Adran 95, ar 1 Medi 2014.
- Daw’r amcangyfrifon o’r boblogaeth breswyl o’r amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach ar gyfer canol 2012 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### 3.3 Canlyniadau allweddol y maes incwm

- Ym maes incwm MALIC 2014, roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd a dinasoedd mawr de Cymru, ac mewn rhai trefi arfordirol yng ngogledd Cymru.
- Casnewydd (20.0 y cant) oedd yr awdurdod lleol â’r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes incwm. Nid oedd gan Bowys a Sir Fynwy yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes incwm, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych.
- Mae’r patrymau amddifadedd incwm cyffredinol a welir ym MALIC 2014 yn debyg i’r rhai hynny a welir ym MALIC 2011.
- Mae 21.7 y cant o’r bobl sy’n ddifreintiedig o ran incwm yn y 10 y cant o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes incwm (yr ACEHI â safleoedd 1- 191).
- Mae tua hanner y bobl hynny sy’n ddifreintiedig o ran incwm yn y 30 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes incwm.

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014**

# Maes Amddifadedd Incwm




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2015. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/68/15.16
Gorffennaf 2015

**Nodwch**

(r) – Mae'r map wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

## 3.4 Cymharu'r maes incwm rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Mae modd lawrlwytho'r gyfres gyflawn o safleoedd meysydd MALIC 2014 a'r dangosyddion (MALIC: Data Dangosyddion Blynyddol) oddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r isadran ganlynol yn disgrifio rhai o'r newidiadau i ACEHI yn y maes incwm ers MALIC 2011.

Mae Tabl 3.1 isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae'r rhifau lletraws, mewn testun trwm, yn dangos nifer yr ACEHI sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp mwy difreintiedig.

Sylwer bod newidiadau diweddar mewn nifer fach o ffiniau ACEHI, yn dilyn Cyfrifiad 2011, wedi effeithio ar y grwpiau amddifadedd hyn. Mae'r ACEHI newydd hynny y mae'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol â MALIC 2011 wedi eu hepgor o'r gymhariaeth. Mae niferoedd yr hen ACEHI a'r rhai newydd wedi eu cynnwys yn y tabl (mewn colofn a rhes ar wahân) er mwyn dangos y darlun cyflawn. Gweler Atodiad B i gael mwy o wybodaeth.

**Tabl 3.1: Symudiadau'r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Incwm rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014 (d)**

| | | Maes Incwm 2014 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Hen ACEHI* | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| Maes Incwm 2011 | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-190) | **159** | 28 | 1 | 0 | 0 | 2 | 190 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd191-380) | 29 | **119** | 35 | 2 | 0 | 5 | 190 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 381-570) | 0 | 35 | **102** | 50 | 0 | 3 | 190 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 571-950) | 1 | 4 | 45 | **262** | 58 | 10 | 380 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 951-1,896) | 0 | 0 | 2 | 60 | **855** | 29 | 946 |
| | ACEHI newydd* | 2 | 5 | 6 | 8 | 41 | 0 | 62 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,896) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | 49 | **1,958** |

**Nodwch:** (d) – Mae rhai ffigurau yn y tabl hwn wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).


* Nid oes modd cymharu'r ACEHI hyn rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Hen ACEHI yw'r rhai hynny a oedd yn bresennol ym MALIC 2011 ond sydd wedi eu disodli gan ACEHI newydd ers hynny. ACEHI newydd yw'r rhai hynny sy'n newydd i MALIC 2014.

Mae Tabl 3.1 yn dangos na fu newidiadau mawr rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Fodd bynnag, dylid nodi bod canran y bobl a ystyrir yn ddifreintiedig o ran incwm yng Nghymru gyfan wedi gostwng ychydig, o 17.8 y cant ym MALIC 2011 i 17.1 y cant ym MALIC 2014. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r data dros amser gan fod newidiadau diweddar i'r gyfundrefn les yn golygu bod trothwyon cymhwysedd a meini prawf rhai budd-daliadau wedi newid.

### 3.5 Dosbarthiad y boblogaeth ddifreintiedig o ran incwm ym MALIC 2014

Mae Siart 3.1 isod yn dangos safleoedd a gwerthoedd dangosyddion y maes incwm ym MALIC 2014.

**Siart 3.1: Dosbarthiad y maes incwm (d)**




**Nodwch**
(d) – Mae'r siart hon wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Mae'r plot yn dangos bod cynnydd serth, ar ben mwyaf difreintiedig y dosbarthiad, yng nghanran y bobl sy'n ddifreintiedig o ran incwm. Gwelir amrywiaeth mawr yng nghanran y bobl sy'n ddifreintiedig o ran incwm yn y 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig. Mae'r canrannau'n amrywio o 69 y cant ar gyfer Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych (yr ACEHI yn safle 1), i 32 y cant ar gyfer Cwmtyleri 1, Blaenau Gwent (yr ACEHI yn safle 191).

Mae Tabl 3.2 isod yn rhoi'r rhifau hyn yn eu cyd-destun. Mae'r 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yn cynnwys 21.7 y cant o'r bobl hynny sy'n ddifreintiedig o ran incwm yng Nghymru. Mae ychydig dros hanner y bobl hynny sy'n ddifreintiedig o ran incwm yn y 30 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yn y maes incwm.

**Tabl 3.2: Dosbarthiad y boblogaeth sy'n ddifreintiedig o ran incwm, MALIC 2014 (d)**


| Canran yr holl bobl sy'n ddifreintiedig o ran incwm | Canran AGEHI Cymru | Graddfeydd maes incwm |
|---:|---|---:|
| 21.7 | 10.0% mwyaf difreintiedig | 1 - 191 |
| 38.1 | 20.0% mwyaf difreintiedig | 1 - 382 |
| 50.0 | 28.7% mwyaf difreintiedig | 1 - 548 |
| 6.9 | 20.0% mwyaf difreintiedig | 1529 - 1909 |

**Nodwch**
(d) – Mae rhai ffigurau yn y tabl hwn wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

## 3.6 Dadansoddiad awdurdodau lleol yn y maes incwm

Mae Siart 3.2 isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes incwm ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'u canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol ac mae'r llinellau'n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 3.2: Box plot of WIMD 2014 Income domain ranks, by local authority (d)**




**Nodwch:** (d) Mae'r siart hon wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Mae Tabl 3.3 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10 y cant (safleoedd 1-191), 20 y cant (safleoedd 1-382), 30 y cant (safleoedd 1-573) a 50 y cant (safleoedd 1-955) o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes incwm ym MALIC 2014.

**Tabl 3.3: ACEHI difreintiedig maes Incwm MALIC 2014, fesul awdurdod lleol (d)**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-191 | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-382 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-573 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 6.8 | 15.9 | 18.2 | 43.2 |
| Gwynedd | 73 | 4.1 | 4.1 | 6.8 | 31.5 |
| Conwy | 71 | 5.6 | 14.1 | 31.0 | 46.5 |
| Sir Ddinbych | 58 | 13.8 | 17.2 | 25.9 | 53.4 |
| Sir y Fflint | 92 | 4.3 | 9.8 | 18.5 | 33.7 |
| Wrecsam | 85 | 5.9 | 14.1 | 25.9 | 45.9 |
| Powys | 79 | 0.0 | 7.6 | 10.1 | 19.0 |
| Ceredigion | 46 | 2.2 | 2.2 | 8.7 | 28.3 |
| Sir Benfro | 71 | 4.2 | 8.5 | 15.5 | 42.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 2.7 | 8.9 | 21.4 | 46.4 |
| Abertawe | 148 | 14.2 | 27.0 | 29.7 | 48.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 11.0 | 25.3 | 39.6 | 69.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 9.1 | 21.6 | 40.9 | 56.8 |
| Bro Morgannwg | 79 | 5.1 | 16.5 | 24.1 | 39.2 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 14.9 | 28.6 | 46.8 | 69.5 |
| Merthyr Tudful | 36 | 16.7 | 25.0 | 44.4 | 80.6 |
| Caerffili | 110 | 10.0 | 25.5 | 36.4 | 68.2 |
| Blaenau Gwent | 47 | 17.0 | 34.0 | 51.1 | 85.1 |
| Torfaen | 60 | 10.0 | 23.3 | 40.0 | 63.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 5.4 | 7.1 | 21.4 |
| Casnewydd | 95 | 20.0 | 34.7 | 44.2 | 58.9 |
| Caerdydd | 214 | 19.2 | 30.8 | 37.4 | 45.3 |
| **Cymru** | **1,909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

**Nodwch**
(d) – Mae rhai ffigurau yn y tabl hwn wedi cael ei adolygu ar 12 Awst 2015 ar ôl derbyn data diwygiedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Un modd o gymharu data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ACEHI yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (neu'r 20 y cant ac ati) o'r holl ACEHI yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Casnewydd (20.0 y cant).
- Nid oedd gan Bowys na Sir Fynwy yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yn y maes incwm. Dim ond 19.0 y cant o'r ACEHI ym Mhowys oedd yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Blaenau Gwent a oedd â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (85.1 y cant). Yr uchaf wedyn oedd Merthyr Tudful, gydag 80.6 y cant o'i ACEHI yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 3.7 Newidiadau methodolegol yn y maes incwm rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Nid oedd unrhyw newidiadau methodolegol yn y maes incwm rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Fodd bynnag, mae newidiadau diweddar i'r gyfundrefn les yn golygu bod trothwyon cymhwysedd a meini prawf rhai budd-daliadau wedi newid.

## 3.8 Gwybodaeth gefndir am y maes incwm

### Amcangyfrifon Incwm

Mae amcangyfrifon incwm ardaloedd bach yn fesur posibl o amddifadedd; fodd bynnag, nid oes unrhyw ffynonellau data addas ar gael ar lefel ACEHI. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n paratoi amcangyfrifon o incwm yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol ar hyn o bryd.

### Adroddiad Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog

Adroddiad blynyddol a gaiff ei baratoi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yw Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI). Mae'n rhoi cipolwg ar safon byw'r aelwydydd yn y Deyrnas Unedig, gan ganolbwyntio ar ran isaf y dosbarthiad incwm. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r prif ffigurau ar gyfer tlodi yng Nghymru.

Mae canlyniadau allweddol Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

Ceir hefyd adroddiad HBAI llawn.

### Hawlwyr mynych

Mae gwybodaeth am hyd hawliadau budd-daliadau ar gael yn yr Astudiaeth Hydredol Gwaith a Phensiynau (WPLS). Mae'r data hyn ar gael ar offeryn tablu'r Adran Gwaith a Phensiynau.

# 4 Y Maes Cyflogaeth




## 4.1 Cyflwyniad


Diben y maes cyflogaeth yw casglu gwybodaeth am ddiffyg cyflogaeth. Mae hyn yn cwmpasu'r boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt yn gweithio, heb i hynny fod o'u gwirfodd, gan gynnwys pobl na allant weithio oherwydd salwch neu bobl sy'n ddi-waith ond sydd wrthi'n chwilio am waith.

I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes cyflogaeth, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

Mae gan y maes cyflogaeth bwysau o 23.5 y cant yn y Mynegai cyffredinol.

## 4.2 Dangosyddion y maes cyflogaeth

Mae'r maes cyflogaeth yn cynnwys un dangosydd, ag iddo dair elfen:




Mae pob elfen o'r dangosydd hwn yn cael eu cyfansymio ac yna'u rhannu gan boblogaeth oedran gweithio'r ACEHI, i roi un dangosydd. Un waith yn unig y caiff unigolion sy'n derbyn sawl budd-dal eu cyfrif o fewn y dangosydd. Mae newidiadau'n cael eu cyflwyno i'r budd-daliadau hyn o ganlyniad i'r diwygiadau i'r gyfundrefn les, ond nid oedd Credyd Cynhwysol wedi'u disodli yn yr un ardal yng Nghymru yn ystod y cyfnod y mae'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2014 yn ymwneud ag ef.


- Daw’r data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac maent yn seiliedig ar gyfartaledd yr unigolion a oedd yn derbyn y budd-daliadau hyn yn ystod mis Tachwedd 2012, mis Chwefror 2013, mis Mai 2013 a mis Awst 2013.
- Daw’r amcangyfrifon o’r boblogaeth breswyl o amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer canol 2012.

### 4.3 Canlyniadau allweddol y maes cyflogaeth

- Yn y maes cyflogaeth ar gyfer MALIC 2014, roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd a dinasoedd mawr de Cymru, ac mewn rhai trefi arfordirol yng ngogledd Cymru.
- Merthyr Tudful (25.0%) oedd yr awdurdod lleol â’r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes cyflogaeth. Nid oedd gan Sir Fynwy yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes cyflogaeth, Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych oedd yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae’r patrymau amddifadedd cyflogaeth a welir ym MALIC 2014 yn debyg i’r rhai hynny a welwyd ym MALIC 2011.
- Mae 20.1 y cant o’r bobl sy’n ddifreintiedig o ran cyflogaeth yn y 10 y cant o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes cyflogaeth (yr ACEHI yn y safleoedd 1- 191).
- Mae ychydig yn llai na hanner y bobl hynny sy’n ddifreintiedig o ran cyflogaeth yn y 30 y cant o’r ACEHI mwyaf difreintiedig yn y maes cyflogaeth.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

# Maes Amddifadedd Cyflogaeth




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2014. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/123/14.15
Tachwedd 2014

### 4.4 Cymharu'r maes cyflogaeth rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Mae modd lawrlwytho'r gyfres gyflawn o safleoedd meysydd MALIC 2014 a'r dangosyddion (MALIC: Data Dangosyddion Blynyddol) oddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r isadran ganlynol yn disgrifio rhai o'r newidiadau i ACEHI yn y maes cyflogaeth ers MALIC 2011.

Mae Tabl 4.1 isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob grŵp amddifadedd MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae'r rhifau lletraws, mewn testun trwm, yn dangos nifer yr ACEHI sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grwp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grwp mwy difreintiedig.

Sylwer bod newidiadau diweddar i nifer fach o ffiniau ACEHI, yn dilyn Cyfrifiad 2011, wedi effeithio ar y grwpiau amddifadedd hyn. Mae'r ACEHI newydd hynny y mae'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol â MALIC 2011 wedi eu hepgor o'r gymhariaeth. Mae niferoedd yr hen ACEHI a'r rhai newydd wedi eu cynnwys yn y tabl (mewn colofn a rhes ar wahân) er mwyn rhoi darlun cyflawn. Gweler Atodiad B i gael mwy o wybodaeth.

**Tabl 4.1: Symudiadau yn y grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Cyflogaeth rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014**

| | | **Maes Cyflogaeth 2014** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Hen ACEHI* | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| **Maes Cyflogaeth 2011** | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-190) | **160** | 52 | 4 | 0 | 0 | 6 | 222 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd191-380) | 26 | **97** | 48 | 3 | 0 | 3 | 177 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 381-570) | 2 | 38 | **86** | 56 | 1 | 2 | 185 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 571-950) | 0 | 2 | 43 | **295** | 90 | 7 | 437 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 951-1,896) | 0 | 0 | 1 | 21 | **822** | 31 | 875 |
| | ACEHI newydd* | 3 | 2 | 9 | 7 | 41 | 0 | 62 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,896) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | 49 | **1,958** |

* Nid oes modd cymharu'r ACEHI hyn rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014. Hen ACEHI yw'r rhai hynny a oedd yn bresennol ym MALIC 2001 ond sydd wedi eu disodli gan ACEHI newydd ers hynny. ACEHI newydd yw'r rhai hynny sy'n newydd i MALIC 2014.

Mae Tabl 4.1 uchod yn dangos na fu unrhyw newidiadau mawr rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer y bobl a ystyrir yn ddifreintiedig o ran cyflogaeth wedi gostwng yng Nghymru'n gyffredinol, o 14.7 y cant ym MALIC 2011 i 13.2 y cant ym MALIC 2014. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu data'r dangosydd dros amser gan fod newidiadau diweddar i'r gyfundrefn les yn golygu bod trothwyon cymhwysedd a meini prawf rhai budd-daliadau wedi newid.

## 4.5 Dosbarthiad y boblogaeth ddifreintiedig o ran cyflogaeth ym MALlC 2014

Mae Siart 4.1 isod yn dangos y safleoedd a gwerthoedd y dangosydd ar gyfer y maes cyflogaeth ym MALIC 2014.

**Siart 4.1: Dosbarthiad y maes cyflogaeth**

Mae Siart 4.1 yn dangos bod cynnydd serth, ar ben mwyaf difreintiedig y dosbarthiad, yng nghanran y bobl sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth. Gwelir amrywiaeth mawr yng nghanran y bobl sy'n ddifreintiedig o safbwynt cyflogaeth yn y 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig. Mae'r canrannau'n amrywio o 60 y cant ar gyfer Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych (ACEHI safle 1), i 24 y cant yng Nghadog 1, Bro Morgannwg (yr ACEHI yn safle 191).

Mae Tabl 4.2 yn rhoi'r rhifau hyn yn eu cyd-destun. Mae'r 10 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yn cynnwys 20.1 y cant o'r rhai hynny sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth yng Nghymru. Mae ychydig yn llai na hanner y rhai hynny sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth yn y 30 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes cyflogaeth.

**Tabl 4.2: Dosbarthiad y boblogaeth sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth, MALIC 2014**


| Canran yr holl bobl sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth | Canran AGEHI Cymru | Graddfeydd maes cyflogaeth |
|---:|---:|---:|
| 20.1 | 10.0% mwyaf difreintiedig | 1 – 191 |
| 36.0 | 20.0% mwyaf difreintiedig | 1 – 382 |
| 50.0 | 30.2% mwyaf difreintiedig | 1 – 548 |
| 7.8 | 20.0% lleiaf difreintiedig | 1,529 – 1,909 |

## 4.6 Dadansoddiad awdurdodau lleol yn y maes cyflogaeth

Mae Siart 4.2 isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes cyflogaeth ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'u canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob

awdurdod lleol, ac mae’r llinellau yn dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 4.2: Plot blwch o safleoedd maes cyflogaeth MALIC 2014 fesul awdurdod lleol**




Mae Tabl 4.3 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10 y cant (safleoedd 1-191), 20 y cant (safleoedd 1-382), 30 y cant (safleoedd 1-573) a 50 y cant (safleoedd 1-955) o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes cyflogaeth ym MALIC 2014.

**Tabl 4.3: ACEHI difreintiedig yn y maes cyflogaeth, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-191 | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-382 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-573 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 4.5 | 15.9 | 15.9 | 45.5 |
| Gwynedd | 73 | 1.4 | 2.7 | 5.5 | 21.9 |
| Conwy | 71 | 5.6 | 14.1 | 23.9 | 46.5 |
| Sir Ddinbych | 58 | 12.1 | 19.0 | 24.1 | 50.0 |
| Sir y Fflint | 92 | 2.2 | 5.4 | 14.1 | 27.2 |
| Wrecsam | 85 | 3.5 | 8.2 | 14.1 | 38.8 |
| Powys | 79 | 1.3 | 5.1 | 8.9 | 21.5 |
| Ceredigion | 46 | 2.2 | 2.2 | 6.5 | 23.9 |
| Sir Benfro | 71 | 5.6 | 8.5 | 18.3 | 35.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 4.5 | 13.4 | 26.8 | 53.6 |
| Abertawe | 148 | 12.8 | 21.6 | 26.4 | 50.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 15.4 | 33.0 | 48.4 | 74.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 9.1 | 34.1 | 43.2 | 62.5 |
| Bro Morgannwg | 79 | 6.3 | 10.1 | 17.7 | 34.2 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 20.8 | 38.3 | 57.1 | 73.4 |
| Merthyr Tudful | 36 | 25.0 | 41.7 | 66.7 | 88.9 |
| Caerffili | 110 | 16.4 | 29.1 | 41.8 | 72.7 |
| Blaenau Gwent | 47 | 23.4 | 51.1 | 70.2 | 95.7 |
| Torfaen | 60 | 8.3 | 30.0 | 43.3 | 63.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 0.0 | 8.9 | 26.8 |
| Casnewydd | 95 | 14.7 | 24.2 | 35.8 | 55.8 |
| Caerdydd | 214 | 12.1 | 20.1 | 29.0 | 39.7 |
| **Cymru** | **1,909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

Un modd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ACEHI yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (neu'r 20 y cant ac ati) o'r holl ACEHI yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Merthyr Tudful (25.0 y cant) a Blaenau Gwent yn agos iawn ato (23.4 y cant).
- Nid oedd gan Sir Fynwy yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig. Dim ond 21.5 y cant o'r ACEHI ym Mhowys oedd yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda Gwynedd yn agos iawn (21.9 y cant).

- Blaenau Gwent oedd â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (95.7 y cant). Yr uchaf wedyn oedd Merthyr Tudful, gydag 88.9 y cant o'i ACEHI yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 4.7 Newidiadau methodolegol yn y maes cyflogaeth rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Nid yw pobl sy'n cymryd rhan yn y Fargen Newydd bellach wedi eu cynnwys yn y maes hwn. Disodlwyd y rhaglen hon gan y Rhaglen Waith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i rywun sy'n cymryd rhan fod yn hawlio un ai Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae'r ddau fudd-dal hyn eisoes wedi eu cynnwys yn y dangosydd. Hefyd, mae newidiadau i'r gyfundrefn les yn golygu y gallai'r trothwyon cymhwysedd a'r meini prawf fod wedi newid ar gyfer rhai budd-daliadau.

## 4.8 Gwybodaeth gefndir am y maes cyflogaeth

### Aelwydydd heb waith

Aelwydydd heb waith yw'r rhai lle nad oes yr un o'r oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed mewn cyflogaeth. Daw'r data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu. Mae'r data hyn yn caniatáu ar gyfer cynnal dadansoddiad ar lefel awdurdodau lleol, gan gynnwys manylion am bobl mewn aelwydydd heb waith, plant mewn aelwydydd heb waith, unig rieni a deiliadaeth tai.

Mae canlyniadau allweddol Cymru ar gael ym mwletin ystadegol Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer Aelwydydd. :

Mae prif amcangyfrifon yr arolwg o'r llafurlu yn y bwletin yn cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eu Bwletin Ystadegol ar Aelwydydd heb Waith.

### Hawlwyr Parhaus

Mae gwybodaeth am hyd hawliadau budd-daliadau ar gael yn yr Astudiaeth Hydredol Gwaith a Phensiynau (WPLS). Mae'r data hyn ar gael ar offeryn tablu'r Adran Gwaith a Phensiynau.

# 5 Y Maes Iechyd

IECHYD


14%

## 5.1 Cyflwyniad

Diben y maes hwn yw mesur diffyg iechyd da. Mae gan y maes iechyd bwysoliad cymharol o 14 y cant yn y Mynegai.

## 5.2 Dangosyddion y maes Iechyd

Mae'r maes iechyd yn cynnwys 4 dangosydd, wedi'u pwysoli fel a ddangosir isod (gan ddefnyddio dadansoddiad ffactorau i gyfrifo'r pwysoliadau). I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes iechyd, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).





- Mae'r dangosydd ar Salwch Cyfyngus Hirdymor yn mesur nifer y bobl â salwch cyfyngus hirdymor fesul 100,000 o bobl, ac mae wedi ei seilio ar ddata cyfrifiad 2011 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).
- Mae'r dangosydd ar Gyfraddau Marwolaeth o Bob Achos yn mesur nifer y marwolaethau fesul 100,000 o bobl, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd 2004-2013 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).
- Mae'r dangosydd ar Fynychder Canser yn mesur nifer yr achosion fesul 100,000 o bobl, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd 2003-2012 (Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre).
- Mae'r dangosydd ar Bwysau Geni Isel yn mesur canran y genedigaethau sengl byw o dan 2.5 kg, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd 2004-2013 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

### 5.3 Canlyniadau allweddol y maes Iechyd

- Ym maes iechyd MALIC 2014, roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd a dinasoedd mawr de Cymru, ac mewn rhai trefi ar yr arfordir ac ar y ffin yng ngogledd Cymru.
- Merthyr Tudful oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes iechyd. Nid oedd gan Ynys Môn, Ceredigion na Sir Fynwy unrhyw ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes iechyd, Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych oedd yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae'r patrymau amddifadedd cyffredinol o ran iechyd ym MALIC 2014 yn debyg i'r rhai hynny ar gyfer MALIC 2011.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

# Maes Amddifadedd Iechyd




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2014. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/123/14.15
Tachwedd 2014

## 5.4 Cymharu’r maes Iechyd rhwng MALIC 20111 a MALIC 2011

Mae modd lawrlwytho’r gyfres gyflawn o safleoedd meysydd MALIC 2014 a’r dangosyddion (MALIC: Data Dangosyddion Blynyddol) oddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae’r isadran ganlynol yn disgrifio rhai o’r newidiadau i ACEHI yn y maes iechyd ers MALIC 2011.

Mae Tabl 5.1 isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob grŵp amddifadedd ar gyfer MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae’r rhifau lletraws, mewn testun trwm, yn dangos nifer yr ACEHI sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd ACEHI sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp mwy difreintiedig.

Sylwer bod newidiadau diweddar mewn nifer fach o ffiniau ACEHI, yn dilyn Cyfrifiad 2011, wedi effeithio ar y grwpiau amddifadedd hyn. Mae’r ACEHI newydd hynny y mae’n anodd eu cymharu’n uniongyrchol â MALIC 2011 wedi eu hepgor o’r gymhariaeth. Mae niferoedd yr hen ACEHI a’r rhai newydd wedi eu cynnwys yn y tabl (mewn colofn a rhes ar wahân) er mwyn dangos y darlun cyflawn. Gweler Atodiad B i gael mwy o wybodaeth.

**Tabl 5.1: Symudiadau’r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Iechyd rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014**

| | | **Maes Iechyd 2014** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Hen ACEHI* | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| **Maes Iechyd 2011** | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-190) | **136** | 42 | 4 | 4 | 0 | 4 | 190 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd191-380) | 38 | **87** | 49 | 13 | 0 | 3 | 190 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 381-570) | 12 | 42 | **66** | 62 | 5 | 3 | 190 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 571-950) | 2 | 17 | 60 | **219** | 75 | 7 | 380 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 951-1,896) | 0 | 1 | 4 | 73 | **836** | 32 | 946 |
| | ACEHI newydd* | 3 | 2 | 8 | 11 | 38 | 0 | 62 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,896) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | 49 | **1,958** |

*Nid oes modd cymharu'r ACEHI hyn rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Hen ACEHI yw'r rhai hynny a oedd yn bresennol ym MALIC 2011 ond sydd wedi eu disodli gan ACEHI newydd ers hynny. ACEHI newydd yw'r rhai hynny sy'n newydd i MALIC 2014.


Symudodd 2 ACEHI (Cocyd 2, Abertawe a Chanol Rhydfelen/Llan 1, Rhondda Cynon Taf) o grŵp y 30-50 y cant o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yn MALlC 2011 i'r degradd mwyaf difreintiedig yn MALlC 2014. Symudodd un ACEHI (Treforys 6, Abertawe) o grŵp y 50 y cant lleiaf difreintiedig i grŵp y 10-20 y cant mwyaf difreintiedig. Digwyddodd y symudiadau hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y dangosyddion cyfraddau marwolaeth o bob achos a mynychder canser.

Symudodd 4 ACEHI (Plasnewydd 4, Caerdydd; y Castell 6, Abertawe; Glyncorrwg a De Castell-nedd 1, Castell-nedd Port Talbot) o'r 10 y cant o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yn MALIC 2011 i grŵp y 30-50 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn MALlC 2014. Gwelwyd gostyngiadau yn y dangosyddion salwch cyfyngus hirdymor a phwysau geni isel ym Mhlasnewydd 4. Gwelwyd gostyngiadau yn y Castell 6 yn y dangosydd mynychder canser ac, i raddau llai, yn y dangosyddion pwysau geni isel a chyfraddau marwolaeth o bob achos. Gwelwyd gostyngiad yn y dangosyddion mynychder canser a chyfraddau marwolaeth o bob achos yn y ddwy ACEHI a enwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gwelwyd gostyngiad yn y dangosydd pwysau geni isel yng Nglyncorrwg hefyd.

## 5.5 Dadansoddiad awdurdodau lleol yn y maes Iechyd

Mae Siart 5.1 isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes iechyd ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'u canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol ac mae'r llinellau'n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 5.1: Plot blwch o safleoedd maes iechyd MALIC 2014, fesul awdurdod lleol**



Mae Tabl 5.2 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10 y cant (safleoedd 1-191), 20 y cant (safleoedd 1-382), 30 y cant (safleoedd 1-573) a 50 y cant (safleoedd 1-955) o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes iechyd ym MALIC 2014.

**Tabl 5.2: ACEHI difreintiedig y maes Iechyd, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-191 | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-382 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-573 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 0.0 | 4.5 | 15.9 | 29.5 |
| Gwynedd | 73 | 2.7 | 4.1 | 5.5 | 19.2 |
| Conwy | 71 | 1.4 | 7.0 | 15.5 | 31.0 |
| Sir Ddinbych | 58 | 10.3 | 15.5 | 22.4 | 37.9 |
| Sir y Fflint | 92 | 2.2 | 8.7 | 17.4 | 34.8 |
| Wrecsam | 85 | 4.7 | 16.5 | 27.1 | 50.6 |
| Powys | 79 | 1.3 | 5.1 | 8.9 | 19.0 |
| Ceredigion | 46 | 0.0 | 0.0 | 4.3 | 15.2 |
| Sir Benfro | 71 | 4.2 | 7.0 | 12.7 | 31.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 4.5 | 11.6 | 29.5 | 55.4 |
| Abertawe | 148 | 14.2 | 20.9 | 29.7 | 54.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 17.6 | 36.3 | 50.5 | 72.5 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 12.5 | 29.5 | 45.5 | 61.4 |
| Bro Morgannwg | 79 | 3.8 | 11.4 | 17.7 | 41.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 21.4 | 43.5 | 56.5 | 77.3 |
| Merthyr Tudful | 36 | 30.6 | 47.2 | 58.3 | 86.1 |
| Caerffili | 110 | 20.0 | 32.7 | 45.5 | 74.5 |
| Blaenau Gwent | 47 | 14.9 | 40.4 | 61.7 | 95.7 |
| Torfaen | 60 | 6.7 | 21.7 | 33.3 | 61.7 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 0.0 | 1.8 | 17.9 |
| Casnewydd | 95 | 8.4 | 22.1 | 33.7 | 52.6 |
| Caerdydd | 214 | 14.5 | 22.0 | 29.9 | 44.4 |
| **Cymru** | **1909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

Un modd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ACEHI yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (neu'r 20 y cant ac ati) o'r holl ACEHI yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r yr ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru yw Merthyr Tudful (30.6 y cant). Roedd hyn oherwydd bod cyfran uchel

o’r ACEHI ym Merthyr Tudful ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig ar gyfer llawer o ddangosyddion y maes iechyd.

- Nid oedd gan Ynys Môn, Ceredigion na Sir Fynwy yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig. Dim ond 15.2 y cant o’r ACEHI yng Ngheredigion oedd yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Blaenau Gwent a oedd â’r ganran uchaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (95.7 y cant). Yr uchaf wedyn oedd Merthyr Tudful, gydag 86.1 y cant o’i ACEHI yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 5.6 Newidiadau methodolegol yn y maes Iechyd rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Ni fu unrhyw newidiadau methodolegol yn y maes iechyd rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014.

## 5.7 Gwybodaeth gefndir am y maes Iechyd

Mae'r wybodaeth isod yn darparu rhestr o ffynonellau ystadegau iechyd ar gyfer Cymru.

### Ystadegau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi cyfres gynhwysfawr o wybodaeth ar iechyd, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae’r ystadegau hyn yn cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys gweithgarwch gofal sylfaenol a chymunedol y GIG, amserau aros a staff y GIG. Mae’r wybodaeth hon ar gael yn:

### Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru

Mae Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru yn cynorthwyo partneriaid lleol a chenedlaethol trwy ddarparu gwybodaeth ystyrlon er mwyn mynd i’r afael â materion iechyd y cyhoedd, gwella iechyd a gwasanaethau iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Eu nod yw darparu gwybodaeth, cyfeiriadau a chanllawiau sy’n briodol i’r cyd-destun. Maent hefyd yn gweithio gyda phobl eraill i wella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ynglŷn ag iechyd a gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

### Y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy

Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru yw cangen ymchwilio epidemiolegol Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru. Mae’n diogelu’r boblogaeth rhag haint trwy gadw golwg ar glefydau heintus, cefnogi

ymchwiliadau i achosion o haint, a darparu gwybodaeth ac ymchwil gymhwysol ym maes iechyd.

### Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru

Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru yw Cofrestrfa Canser Genedlaethol Cymru a'i phrif swyddogaeth yw cofnodi, cadw a chyflwyno adroddiadau ar bob achos o ganser ym mhoblogaeth breswyl Cymru lle bynnag y byddant yn derbyn triniaeth. Dechreuwyd cofrestru canser yng Nghymru bron i bum degawd yn ôl ac erbyn heddiw mae'r gronfa ddata electronig yn dal cofnodion sy'n mynd yn ôl i 1972 ac mae'n cynnwys tua 686,000 o gofnodion.

### Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn cyhoeddi ystadegau iechyd ategol. Ewch i wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gael mwy o wybodaeth.

# 6 Y Maes Addysg

ADDYSG

14%


## 6.1 Cyflwyniad

Diben y maes addysg, o ran cysyniad, yw mesur graddau amddifadedd mewn cysylltiad ag addysg, hyfforddiant a sgiliau. Mae wedi ei gynllunio i adlewyrchu anfantais addysgol mewn ardal o ran diffyg cymwysterau a sgiliau. I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes addysg, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

Mae gan y maes addysg bwysoliad o 14 y cant yn y Mynegai. Mae'r dangosyddion wedi eu pwysoli fel a ddangosir isod (gan ddefnyddio dadansoddiad ffactorau i gyfrifo'r pwysoliadau).

## 6.2 Dangosyddion y maes Addysg

Mae'r maes addysg yn cynnwys 6 dangosydd:




Mae pedwar o'r dangosyddion hyn yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am gyrhaeddiad isel ymhlith plant a phobl ifanc:

- Mae'r dangosydd CA4 Lefel 2 Cynhwysol yn mesur cyfran y plant 15 oed sy'n llwyddo i gael cymwysterau cyfwerth â 5 gradd A*-C mewn TGAU (gan gynnwys mathemateg a Saesneg/Cymraeg), ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd tair blynedd dros y blynyddoedd academaidd 2010/11 – 2012/13. Mae'r data'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru.
- Mae'r dangosydd Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio CA4 yn mesur sgorau pwyntiau cyfartalog fesul disgybl 15 oed ar gyfer yr holl gymwysterau a gyflawnir ar bob gradd hyd at yr hyn sy'n cyfateb i 8 TGAU (h.y. yr '8 TGAU gorau neu gyfwerth'),

ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd tair blynedd dros y blynyddoedd academaidd 2010/11 – 2012/13. Mae'r data'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a Chronfa Data Arholiadau Cymru.

- Mae dangosydd y gyfradd Absenoldeb Mynych yn mesur canran y disgyblion sy'n colli 15 y cant neu fwy o sesiynau ysgol, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd tair blynedd dros y blynyddoedd academaidd 2010/11 – 2012/13. Mae'r data'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.
- Mae'r dangosydd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog CA2 yn mesur sgorau pwyntiau cyfartalog disgyblion yn ôl asesiad yr athrawon yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd tair blynedd dros y blynyddoedd academaidd 2010/11 – 2012/13. Mae'r data'n deillio o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a Chasglu Data Cenedlaethol.

Mae'r ddau ddangosydd arall yn canolbwyntio ar fesur diffyg cymwysterau a sgiliau ymhlith oedolion:


- Mae'r dangosydd ar gyfer oedolion Nad Ydynt yn Mynd i Addysg Uwch yn mesur cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i addysg uwch, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd chwe blynedd dros gyfnod blynyddoedd academaidd 2005/6 – 2010/11. Darperir y data gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.
- Mae'r dangosydd ar gyfer oedolion Heb Gymwysterau yn mesur nifer yr oedolion 25-64 oed nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau, ac mae wedi ei seilio ar ddata Cyfrifiad 2011.

### 6.3 Canlyniadau allweddol y maes addysg

- Mae patrymau cyffredinol y maes addysg ym MALIC 2014 ar y cyfan yn debyg i'r rhai ym MALIC 2011.
- Blaenau Gwent oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes addysg (27.7 y cant). Nid oedd gan Bowys, Ceredigion na Sir Fynwy yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes addysg, roedd yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn Sant Iago, Caerffili.
- Cynyddodd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog CA2 yng Nghymru, yn gyffredinol, o 82 yn 2011 i 84 yn 2014.
- Gostyngodd canran yr oedolion heb unrhyw gymwysterau o 29.2 yn 2008 (a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2011) i 19.6 yn 2014.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

# Maes Amddifadedd Addysg




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2014. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/123/14.15
Tachwedd 2014

## 6.4 Cymharu'r maes Addysg rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Mae modd lawrlwytho'r gyfres gyflawn o safleoedd meysydd MALIC 2014 a'r dangosyddion (MALIC: Data Dangosyddion Blynyddol) oddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r is-adran ganlynol yn disgrifio rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd i'r ACEHI yn y maes addysg ers MALIC 2011.

Mae Tabl 6.1 isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob un o'r grwpiau amddifadedd ar gyfer MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae'r rhifau lletraws, mewn testun trwm, yn dangos nifer yr ACEHI sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp mwy difreintiedig.

Sylwer bod newidiadau diweddar mewn nifer fach o ffiniau ACEHI, yn dilyn Cyfrifiad 2011, wedi effeithio ar y grwpiau amddifadedd hyn. Mae'r ACEHI newydd hynny y mae'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol â MALIC 2011 wedi eu hepgor o'r gymhariaeth. Mae niferoedd yr hen ACEHI a'r rhai newydd wedi eu cynnwys yn y tabl (mewn colofn a rhes ar wahân) er mwyn dangos y darlun cyflawn. Gweler Atodiad B i gael mwy o wybodaeth.

**Tabl 6.1: Symudiadau'r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Addysg rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014**

| | | Maes Addysg 2014 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Hen ACEHI* | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| Maes Addysg 2011 | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-190) | **146** | 39 | 1 | 0 | 0 | 4 | 190 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd191-380) | 39 | **99** | 42 | 5 | 0 | 5 | 190 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 381-570) | 0 | 37 | **84** | 62 | 3 | 4 | 190 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 571-950) | 1 | 7 | 56 | **234** | 75 | 7 | 380 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 951-1,896) | 0 | 0 | 4 | 71 | **842** | 29 | 946 |
| | ACEHI newydd* | 5 | 9 | 4 | 10 | 34 | 0 | 62 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,896) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | 49 | **1,958** |


* Nid oes modd cymharu'r ACEHI hyn rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Hen ACEHI yw'r rhai hynny a oedd yn bresennol ym MALIC 2011 ond sydd wedi eu disodli gan ACEHI newydd ers hynny. ACEHI newydd yw'r rhai hynny sy'n newydd i MALIC 2014.

Un ACEHI yn unig sydd wedi symud yn sylweddol rhwng grwpiau amddifadedd, rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Symudodd yr ACEHI Cathays 3, Caerdydd o grŵp y 30-50 y cant mwyaf difreintiedig ym MALIC 2011 i grŵp y 10 y cant mwyaf difreintiedig ym MALIC 2014. Mae'n ymddangos mai'r rheswm am hyn yw'r sgorau isel yn y 4 dangosydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, a gallai fod yn gysylltiedig â phlant yn yr ardal sy'n newydd i addysg cyfrwng Saesneg.

## 6.5 Dadansoddiad awdurdodau lleol yn y maes Addysg

Mae Siart 6.1 isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes addysg ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'u canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol ac mae'r llinellau'n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 6.1: Plot blwch o safleoedd maes addysg MALIC 2014, fesul awdurdod lleol**



Mae Tabl 6.2 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10 y cant (safleoedd 1-191), 20 y cant (safleoedd 1-382), 30 y cant (safleoedd 1-573) a 50 y cant (safleoedd 1-955) o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes addysg ym MALIC 2014.

**Tabl 6.2: ACEHI difreintiedig y maes Addysg, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-191 | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-382 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-573 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 2.3 | 6.8 | 15.9 | 36.4 |
| Gwynedd | 73 | 4.1 | 4.1 | 8.2 | 21.9 |
| Conwy | 71 | 4.2 | 8.5 | 19.7 | 33.8 |
| Sir Ddinbych | 58 | 8.6 | 12.1 | 20.7 | 50.0 |
| Sir y Fflint | 92 | 4.3 | 12.0 | 20.7 | 37.0 |
| Wrecsam | 85 | 8.2 | 20.0 | 31.8 | 50.6 |
| Powys | 79 | 0.0 | 3.8 | 7.6 | 26.6 |
| Ceredigion | 46 | 0.0 | 0.0 | 6.5 | 21.7 |
| Sir Benfro | 71 | 4.2 | 11.3 | 15.5 | 39.4 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 4.5 | 9.8 | 20.5 | 47.3 |
| Abertawe | 148 | 13.5 | 23.6 | 29.1 | 44.6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 7.7 | 17.6 | 31.9 | 57.1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 11.4 | 26.1 | 40.9 | 61.4 |
| Bro Morgannwg | 79 | 3.8 | 12.7 | 20.3 | 35.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 16.2 | 31.8 | 50.0 | 75.3 |
| Merthyr Tudful | 36 | 25.0 | 38.9 | 55.6 | 80.6 |
| Caerffili | 110 | 15.5 | 28.2 | 40.9 | 67.3 |
| Blaenau Gwent | 47 | 27.7 | 53.2 | 68.1 | 93.6 |
| Torfaen | 60 | 10.0 | 28.3 | 36.7 | 65.0 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 5.4 | 7.1 | 23.2 |
| Casnewydd | 95 | 13.7 | 24.2 | 35.8 | 51.6 |
| Caerdydd | 214 | 17.3 | 31.3 | 40.7 | 54.7 |
| **Cymru** | **1,909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

Un modd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ACEHI yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (neu'r 20 y cant ac ati) o'r holl ACEHI yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer addysg oedd Blaenau Gwent (27.7 y cant). Mae gan Ferthyr Tudful gyfran debyg, gyda 25.0 y cant o'i ACEHI yn y 10 mwyaf difreintiedig yng

Nghymru. Mae'n ymddangos bod hyn wedi ei achosi'n rhannol gan y sgorau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac oedolion heb gymwysterau yn yr awdurdodau.

- Nid oedd gan Bowys, Ceredigion na Sir Fynwy yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig. Dim ond 21.7 y cant o'r ACEHI yng Ngheredigion a oedd yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a dim ond 21.9 y cant o'r rhai yng Ngwynedd oedd yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Blaenau Gwent hefyd a oedd â'r ganran uchaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (93.6 y cant). Yr uchaf wedyn yw Merthyr Tudful, gydag 80.6 y cant o'i ACEHI yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 6.6 Newidiadau methodolegol yn y maes Addysg rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Roedd tri o'r chwe dangosydd yn bresennol ym MALIC 2011:

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch
- Nifer yr Oedolion 25-64 oed Heb Unrhyw Gymwysterau

O'r rhain, mae ystod oed y dangosydd ar gyfer oedolion heb unrhyw gymwysterau wedi newid ychydig, gan fod oed ymddeol menywod wedi cynyddu o 59 i 64 oed. Mae'r ddau arall yn parhau i fod yr un fath.

Mae'r dangosydd Cyfnod Allweddol 3 ym MALIC 2011 wedi ei diddymu, ac yn hytrach na'r dangosydd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Ehangach Cyfnod Allweddol 4, ceir bellach y ddau ddangosydd Cyfnod Allweddol 4, a ddisgrifiwyd yn flaenorol.

Mae'r ddau ddangosydd absenoldeb wedi eu disodli gan un dangosydd ar Absenoldeb Mynych sy'n cynnwys absenoldeb o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r dangosydd hwn wedi ei lunio gan ddefnyddio methodoleg newydd ac felly nid oes modd ei gymharu â'r dangosyddion blaenorol a ddefnyddiwyd ym MALIC 2011.

## 6.7 Gwybodaeth gefndir am y maes Addysg

### Profion Cenedlaethol

Cyflwynwyd Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (ar gyfer plant ym mlynyddoedd 2-9) yn 2013. Maent yn darparu dull blynyddol o fesur perfformiad plant mewn llythrennedd a rhifedd. Nid oes digon o ddata hanesyddol ar gael ar hyn o bryd i benderfynu pa mor addas yw'r data hwn fel mesur o amddifadedd ar sail ardal yn 2014.

Mae i hwn y potensial o fod yn ffynhonnell gyfoethog o ddata ar gyfer MALIC yn y dyfodol gan fod pob disgybl ysgol ym mlynyddoedd 2-9 yn sefyll y profion yn flynyddol.

Mae data a mwy o wybodaeth ynglŷn â chanlyniadau'r profion hyn ar gael yma.

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r profion eu hunain ar gael yma.

### Pobl Ifanc nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

Byddai mesur ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn fesur addas o amddifadedd addysgol, o ran cysyniad, gan ei fod yn cyd-fynd yn agos â diben y maes.

Mae'r prif amcangyfrifon o nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn dod o'r Datganiad Ystadegol 'Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur'. Mae hwn ar gael ar lefel Cymru yn unig.

Hefyd, cyhoeddir data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn chwarterol drwy'r dudalen hon Er bod yr arolwg yn ffynhonnell ddata bosibl ar gyfer awdurdodau lleol, oherwydd maint y sampl sydd dan sylw ar y lefel hon o fanylder, nid ystyrir ei fod yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi'n rheolaidd.

Ni fu modd cael dangosydd o'r fath ar lefel ardal fach felly, oherwydd:

- bod prif ffynhonnell y data ar bobl ifanc sy'n NEET ar gael ar lefel Cymru yn unig, a bod y ffynhonnell ychwanegol a fyddai'n caniatáu ar gyfer dadansoddi yn ôl ardaloedd wedi ei chasglu o arolwg sampl.
- bod nifer y bobl hynny sy'n NEET yn gymharol fach.

O ganlyniad, ni chafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ym MALIC 2014, ond bydd yn parhau i gael ei ystyried yn y dyfodol, wrth i'r data ddatblygu ymhellach yn y maes hwn.

### Data Rhifedd a Llythrennedd Oedolion

Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru yn cyflwyno data yn ôl rhyw, oed, cyflogaeth, incwm yr aelwyd, lefel cymwysterau, yr iaith Gymraeg a lefelau llythrennedd a rhifedd. Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod 2010, ac aseswyd sgiliau llythrennedd a rhifedd cyffredinol oedolion (16-65 oed) yng Nghymru (cyfrwng Saesneg), a sgiliau llythrennedd cyfrwng Cymraeg oedolion sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru.

Nid yw'r data o'r arolwg hwn yn darparu amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd bach, ac felly nid ydynt yn addas i'w cynnwys ym MALIC 2014.

# 7 Y Maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau

MYNEDIAD I WASANAETHAU

10%

## 7.1 Cyflwyniad


Diben y maes mynediad daearyddol i wasanaethau yw casglu gwybodaeth am amddifadedd o ganlyniad i analluedd aelwyd i fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer bywyd pob dydd. Mae hyn yn cynnwys amddifadedd materol (er enghraifft methu â mynd i gael bwyd) ac agweddau cymdeithasol ar amddifadedd (er enghraifft methu â mynd i weithgareddau ar ôl ysgol).

Mae'r maes mynediad daearyddol i wasanaethau'n mesur amseroedd teithio i amrywiaeth o wasanaethau fel procsi ar gyfer mynediad ehangach i wasanaethau. Nid yw'r maes hwn yn ystyried a yw'r gwasanaethau hyn ar gael i unigolion (e.e. apwyntiadau gyda meddyg teulu), nac yn ystyried dewis personol unigolyn o ran defnyddio rhai gwasanaethau (e.e. os bydd rhywun yn dewis cael ei addysgu mewn ysgol ffydd). Mae mynediad daearyddol gwael i wasanaethau'n ffactor a all wneud mathau eraill o amddifadedd sy'n bodoli mewn ardal yn waeth.

Mae gan y maes mynediad daearyddol i wasanaethau bwysoliad o 10 y cant yn y Mynegai. Mae'r dangosyddion wedi eu pwysoli fel a ddangosir isod (gan ddefnyddio dadansoddiad ffactorau i gyfrifo'r pwysoliadau). I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes mynediad daearyddol i wasanaethau, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

## 7.2 Dangosyddion y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau

Mae'r maes mynediad daearyddol i wasanaethau'n cynnwys 9 dangosydd. Cyfartaledd wedi ei bwysoli o'r amser teithio (mewn munudau) i'r gwasanaeth, trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat, yw pob dangosydd. Rhestrir y gwasanaethau isod:




*Mae'r dangosydd amser teithio cyfartalog i orsaf betrol yn ystyried trafnidiaeth breifat yn unig.

Mae'r maes mynediad daearyddol i wasanaethau'n mesur amseroedd teithio i 9 o wasanaethau a ystyrir fel arfer yn angenrheidiol ar gyfer bywyd pob dydd, gan ddefnyddio trafnidaeth breifat a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys teithio gyda: bws cyhoeddus, trên cyhoeddus a choets genedlaethol, a cherdded. Ystyrir mai trafnidiaeth â char preifat yw trafnidiaeth breifat. Cyflwynwyd dangosyddion trafnidiaeth breifat ar gyfer MALIC 2014.

Cyfrifir y dangosyddion hyn ar sail data cyflymder traffig amser real ar gyfer trafnidiaeth breifat, ac amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus.

Cyfrifir y pwysoliadau er mwyn cyfuno amserau trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat ar gyfer pob ACEHI gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2011 ar berchnogaeth car a nifer yr oedolion 17 oed a hŷn.

I gael esboniad llawn o sut y caiff y dangosyddion hyn eu cyfrifo a'u cyfuno, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

### 7.3 Canlyniadau allweddol y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau


- Ym maes mynediad daearyddol i wasanaethau MALIC 2014, roedd amddifadedd uchel yn gyffredin ledled ardaloedd gwledig Cymru. Roedd rhai pocedi o amddifadedd i'w cael hefyd yn agos at ardaloedd trefol mawr.
- Yr awdurdodau lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Powys (46.8 y cant) a Cheredigion (43.5 y cant). Nid oedd

gan Flaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd na Thorfaen yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig.

- Ar gyfer y maes mynediad daearyddol i wasanaethau, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Cynwyl Gaeo, Sir Gaerfyrddin.
- Mae'r patrymau amddifadedd cyffredinol o ran mynediad daearyddol i wasanaethau ym MALIC 2014 yn debyg i'r rhai hynny ar gyfer MALIC 2011.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

# Maes Amddifadedd Mynediad i Wasanaethau





© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2014. Arolwg Ordnans 100021874

Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/123/14.15
Tachwedd 2014

## 7.4 Cymharu'r maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Mae modd lawrlwytho'r gyfres gyflawn o safleoedd meysydd MALIC 2014 a'r dangosyddion (MALIC: Data Dangosyddion Blynyddol) oddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae Tabl 7.1 isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob grŵp amddifadedd ar gyfer MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae'r rhifau lletraws, mewn testun trwm, yn dangos nifer yr ACEHI sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd ACEHI sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp mwy difreintiedig.

Sylwer bod newidiadau diweddar mewn nifer fach o ffiniau ACEHI, yn dilyn Cyfrifiad 2011, wedi effeithio ar y grwpiau amddifadedd hyn. Mae'r ACEHI newydd hynny y mae'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol â MALIC 2011 wedi eu hepgor o'r gymhariaeth. Mae niferoedd yr hen ACEHI a'r rhai newydd wedi eu cynnwys yn y tabl (mewn colofn a rhes ar wahân) er mwyn dangos y darlun cyflawn. Gweler Atodiad B i gael mwy o wybodaeth

Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli Tabl 7.1. Mae newidiadau sylweddol yn y fethodoleg yn golygu ei bod yn anodd dehongli newidiadau rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Darperir cymhariaeth i ddibenion dangosol yn unig.

**Tabl 7.1: Symudiadau'r grwpiau amddifadedd ar gyfer Mynediad Daearyddol i Wasanaethau rhwng MALlC 2001 a MALlC 2014**

| | | Maes Mynediad i Wasanaethau 2014 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Hen ACEHI* | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| Maes Mynediad i Wasanaethau 2011 | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-190) | **152** | 23 | 3 | 2 | 0 | 10 | 190 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd1 91-380) | 26 | **81** | 34 | 37 | 4 | 8 | 190 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 381-570) | 2 | 29 | **37** | 67 | 48 | 7 | 190 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 571-950) | 1 | 36 | 58 | **117** | 159 | 9 | 380 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 951-1,896) | 1 | 17 | 51 | 149 | **713** | 15 | 946 |
| | ACEHI newydd* | 9 | 5 | 8 | 10 | 30 | 0 | 62 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,896) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | 49 | **1,958** |

*Nid oes modd cymharu'r ACEHI hyn rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Hen ACEHI yw'r rhai hynny a oedd yn bresennol ym MALIC 2011 ond sydd wedi eu disodli gan ACEHI newydd ers hynny. ACEHI newydd yw'r rhai hynny sy'n newydd i MALIC 2014.

Ceir 6 ACEHI sydd bellach dri neu fwy o grwpiau amddifadedd yn uwch (llai difreintiedig) ym MALIC 2014 nag yr oeddynt ym MALIC 2011, a cheir 19 ACEHI sydd dri neu fwy o grwpiau amddifadedd yn is (mwy difreintiedig) ar gyfer y maes mynediad daearyddol i wasanaethau. Fodd bynnag, mae newidiadau sylweddol i'r fethodoleg yn golygu ei bod yn anodd dehongli newidiadau rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae'r rhan fwyaf o'r ACEHI y mae'n ymddangos eu bod wedi newid yn sylweddol wedi eu lleoli mewn ardaloedd trefol. Mae'r rhesymau am y newidiadau hyn yn cynnwys y canlynol:


- cynnwys trafnidiaeth breifat ym MALIC 2014;
- cynnwys gwasanaethau newydd (e.e. fferyllfa a gorsaf betrol) a diddymu gwasanaethau eraill (e.e. deintydd y GIG ac arhosfa trafnidiaeth gyhoeddus) ar gyfer MALIC 2014;

- agor a chau gwasanaethau ers 2008 (gan fod MALIC 2011 yn defnyddio'r un data â MALIC 2008);
- newidiadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus ers 2008 (gan fod MALIC 2011 yn defnyddio'r un data â MALIC 2008);
- newidiadau i ffiniau ACEHI mewn nifer fach o ardaloedd; a
- newidiadau i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo amseroedd teithio gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

### 7.5 Dadansoddiad awdurdodau lleol yn y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau

Mae Siart 7.1 isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes mynediad daearyddol i wasanaethau ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'u canoli ar safle'r canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol ac mae'r llinellau'n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 7.1: Plot blwch o safleoedd maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau MALIC 2014, fesul awdurdod lleol**



Mae Tabl 7.2 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10 y cant (safleoedd 1-191), 20 y cant (safleoedd 1-382), 30 y cant (safleoedd 1-573) a 50 y cant (safleoedd 1-955) o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes mynediad daearyddol i wasanaethau ym MALIC 2014.

**Tabl 7.2: ACEHI difreintiedig y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-191 | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-382 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-573 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 25.0 | 50.0 | 56.8 | 72.7 |
| Gwynedd | 73 | 24.7 | 49.3 | 60.3 | 78.1 |
| Conwy | 71 | 12.7 | 18.3 | 35.2 | 56.3 |
| Sir Ddinbych | 58 | 13.8 | 24.1 | 29.3 | 44.8 |
| Sir y Fflint | 92 | 3.3 | 15.2 | 27.2 | 54.3 |
| Wrecsam | 85 | 5.9 | 14.1 | 22.4 | 42.4 |
| Powys | 79 | 46.8 | 62.0 | 68.4 | 79.7 |
| Ceredigion | 46 | 43.5 | 60.9 | 67.4 | 82.6 |
| Sir Benfro | 71 | 36.6 | 52.1 | 66.2 | 77.5 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 23.2 | 38.4 | 51.8 | 69.6 |
| Abertawe | 148 | 2.0 | 8.1 | 16.2 | 37.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 4.4 | 18.7 | 31.9 | 61.5 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 0.0 | 8.0 | 21.6 | 48.9 |
| Bro Morgannwg | 79 | 5.1 | 13.9 | 24.1 | 41.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 0.6 | 9.7 | 19.5 | 48.7 |
| Merthyr Tudful | 36 | 2.8 | 16.7 | 27.8 | 63.9 |
| Caerffili | 110 | 0.0 | 4.5 | 20.0 | 40.0 |
| Blaenau Gwent | 47 | 0.0 | 10.6 | 31.9 | 61.7 |
| Torfaen | 60 | 0.0 | 3.3 | 13.3 | 31.7 |
| Sir Fynwy | 56 | 21.4 | 37.5 | 46.4 | 67.9 |
| Casnewydd | 95 | 3.2 | 11.6 | 16.8 | 33.7 |
| Caerdydd | 214 | 0.0 | 0.9 | 4.7 | 15.4 |
| **Cymru** | **1,909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

Un modd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ACEHI yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (neu'r 20 y cant ac ati) o'r holl ACEHI yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer mynediad daearyddol i wasanaethau oedd Powys (46.8 y

cant). Yr uchaf wedyn oedd Ceredigion, gyda 43.5 y cant o'i ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig. Y rheswm am hyn yw bod yr awdurdodau lleol hyn yn fawr a bod dwysedd y boblogaeth yn brin, gyda llawer o aneddiadau gwledig bach.

- Nid oedd gan Flaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd a Thorfaen yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig. 15.4 y cant yn unig o'r ACEHI yng Nghaerdydd oedd yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Ceredigion a oedd â'r ganran uchaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (82.6 y cant). Yr uchaf wedyn oedd Powys, gyda 79.7 y cant o'i ACEHI yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 7.6 Newidiadau methodolegol yn y maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Ym MALIC 2014, am y tro cyntaf, mae amseroedd teithio cyfartalog gan ddefnyddio trafnidiaeth breifat wedi eu cynnwys yn nangosyddion y maes mynediad daearyddol i wasanaethau. Pwysolwyd y rhain gyda'i gilydd gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011 ar berchnogaeth car a nifer y bobl 17 oed a hŷn. Mae papur yn nodi manylion y fethodoleg ar gael ar dudalennau gwe MALIC 2014.

Gwnaed rhai newidiadau i'r gwasanaethau a ystyriwyd. Cafodd y dangosyddion amser teithio cyfartalog at ddeintydd y GIG ac amser teithio cyfartalog at drafnidiaeth gyhoeddus eu cynnwys ym MALIC 2011, ond nid ym MALIC 2014. Mae'r dangosyddion ar gyfer amser teithio cyfartalog i fferyllfa ac amser teithio cyfartalog i orsaf betrol (trafnidiaeth breifat yn unig) yn newydd ym MALIC 2014.

Mewn fersiynau blaenorol o MALIC, defnyddiwyd yr amser teithio cyfartalog i'r 10 darparwr gwasanaeth agosaf, ond mae MALIC 2014 yn ystyried y darparwr agosaf yn unig. I gael disgrifiad mwy manwl o'r newidiadau methodolegol, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

## 7.7 Gwybodaeth Gefndir am y Maes Mynediad Daearyddol i Wasanaethau

### Ystadegau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

Mae mwy o ddata ar ystadegau trafnidiaeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

### Amddifadedd mewn Ardaloedd Gwledig

Fel rhan o'r broses o ddatblygu MALlC 2014, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y dangosyddion ar gyfer y Mynegai. Mae erthygl ystadegol 'Welsh Index of Multiple Deprivation 2014: A guide to analysing deprivation in rural areas' wedi ei pharatoi fel rhan o becyn ehangach MALlC er mwyn ymdrin â rhai o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad. Diben yr erthygl hon yw rhoi man cychwyn i drafodaethau ac i waith ar ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig.

Mae’r erthygl yn:

- Trafod diffiniadau o 'Gymru wledig' ac 'amddifadedd mewn ardaloedd gwledig'
- Rhoi cyfarwyddyd ar sut y gellir a sut na ellir defnyddio MALlC a'i ddangosyddion i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig (gan gynnwys enghreifftiau)
- Egluro a chyfeirio at ddata dangosyddion MALlC sydd wedi eu cyhoeddi, yn ôl math o anheddiad a chyd-destun.
- Asesu pa mor addas yw defnyddio data ar gyfer ardaloedd bach iawn (lefel Ardaloedd Cynnyrch) fel dull arall o nodi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig.
- Cyfeirio at adroddiadau a dadansoddiadau defnyddiol.

# 8 Y Maes Diogelwch Cymunedol

DIOGELWCH CYMUNEDOL

5%


## 8.1 Cyflwyniad

Diben y maes hwn yw ystyried amddifadedd mewn cysylltiad â byw mewn cymuned ddiogel. Mae’n cwmpasu profiad go iawn o drosedd a thân, yn ogystal â chanfyddiadau am ddiogelwch yn yr ardal leol. I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes diogelwch cymunedol, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

Mae gan y maes diogelwch cymunedol bwysoliad o 5 y cant yn y Mynegai. Dangosir pwysoliad y dangosyddion isod.

## 8.2 Dangosyddion y maes Diogelwch Cymunedol

Mae’r maes diogelwch cymunedol yn cynnwys 6 dangosydd:




Mae pump o’r dangosyddion hyn yn deillio o ddata Troseddau a Gofnodir gan yr Heddlu:

- Mae’r dangosydd ar Ddifrod Troseddol a Gofnodir gan yr Heddlu yn mesur nifer yr achosion o ddifrod troseddol y cyflwynwyd adroddiad yn eu cylch, fel canran o’r boblogaeth breswyl, ac eithrio’r boblogaeth mewn carchardai, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd dwy flynedd (2012-13 a 2013-14).
- Mae’r dangosydd ar Droseddu Treisgar a Gofnodir gan yr Heddlu yn mesur nifer yr achosion o droseddu treisgar y cyflwynwyd adroddiad yn eu cylch, fel canran o’r boblogaeth breswyl, ac eithrio’r boblogaeth mewn carchardai, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd dwy flynedd (2012-13 a 2013-14).


- Mae'r dangosydd ar Ladrad a Gofnodir gan yr Heddlu yn mesur nifer yr achosion o ladrad y cyflwynwyd adroddiad yn eu cylch, fel canran o'r boblogaeth breswyl, ac eithrio'r boblogaeth mewn carchardai, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd dwy flynedd (2012-13 a 2013-14).
- Mae'r dangosydd ar Fwrgleriaeth a Gofnodir gan yr Heddlu yn mesur nifer yr achosion o fwrgleriaeth y cyflwynwyd adroddiad yn eu cylch, fel canran o nifer yr anheddau a chyfeiriadau busnes, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd dwy flynedd (2012-13 a 2013-14).
- Mae'r dangosydd ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn mesur nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol y cyflwynwyd adroddiad yn eu cylch, fel canran o'r boblogaeth breswyl, ac eithrio'r boblogaeth mewn carchardai, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd dwy flynedd wedi ei bwysoli.
- Mae'r dangosydd ar Achosion o Dân yn mesur nifer y digwyddiadau o brif danau gan ychwanegu tanau "cerbydau wedi eu gadael", a thanau eilaidd "cerbydau wedi eu gadael" fel canran o'r boblogaeth breswyl, ac mae wedi ei seilio ar gyfartaledd dwy flynedd (2012-13 a 2013-14). Mae'r data'n deillio o'r Gwasanaeth Cofnodi Achosion o Dân.

### 8.3 Canlyniadau allweddol y maes Diogelwch Cymunedol

- Ym maes diogelwch cymunedol MALIC 2014, roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd de Cymru, dinasoedd mawr de Cymru, a threfi ar yr arfordir ac ar y ffin yng ngogledd Cymru.
- Blaenau Gwent oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes diogelwch cymunedol (23.4 y cant). Powys oedd â'r gyfran leiaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (3.8 y cant).
- Ar gyfer y maes diogelwch cymunedol, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Cathays 10, Caerdydd.
- Mae'r patrymau cyffredinol o ran amddifadedd diogelwch cymunedol ym MALIC 2014 yn debyg i'r rhai hynny ar gyfer MALIC 2011.

# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

# Maes Amddifadedd Diogelwch Cymunedol




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2014. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/123/14.15
Tachwedd 2014

## 8.4 Cymharu'r maes Diogelwch Cymunedol rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Mae modd lawrlwytho'r gyfres gyflawn o safleoedd meysydd MALIC 2014 a'r dangosyddion (MALIC:Data Dangosyddion Blynyddol) odd ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r isadran ganlynol yn disgrifio rhai o'r newidiadau i ACEHI yn y maes diogelwch cymunedol ers MALIC 2011.

Mae Tabl 8.1 isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob grŵp amddifadedd ar gyfer MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae'r rhifau lletraws, mewn testun trwm, yn dangos nifer yr ACEHI sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd ACEHI sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grwp mwy difreintiedig.

Sylwer bod newidiadau diweddar mewn nifer fach o ffiniau ACEHI, yn dilyn Cyfrifiad 2011, wedi effeithio ar y grwpiau amddifadedd hyn. Mae'r ACEHI newydd hynny y mae'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol â MALIC 2011 wedi eu hepgor o'r gymhariaeth. Mae niferoedd yr hen ACEHI a'r rhai newydd wedi eu cynnwys yn y tabl (mewn colofn a rhes ar wahân) er mwyn dangos y darlun cyflawn. Gweler Atodiad B i gael mwy o wybodaeth.

**Tabl 8.1: Symudiadau'r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Diogelwch Cymunedol rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014**

| | | Maes Diogelwch Cymunedol 2014 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Hen ACEHI* | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| Maes Diogelwch Cymunedol 2011 | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-190) | **103** | 56 | 21 | 7 | 0 | 3 | 190 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd191-380) | 39 | **55** | 49 | 39 | 2 | 6 | 190 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 381-570) | 21 | 44 | **43** | 61 | 20 | 1 | 190 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 571-950) | 16 | 26 | 56 | **163** | 109 | 10 | 380 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 951-1,896) | 2 | 6 | 18 | 103 | **788** | 29 | 946 |
| | ACEHI newydd* | 10 | 4 | 4 | 9 | 35 | 0 | 62 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,896) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | 49 | **1,958** |

* Nid oes modd cymharu'r ACEHI hyn rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Hen ACEHI yw'r rhai hynny a oedd yn bresennol ym MALIC 2011 ond sydd wedi eu disodli gan ACEHI newydd ers hynny. ACEHI newydd yw'r rhai hynny sy'n newydd i MALIC 2014.

Yn y maes diogelwch cymunedol, mae 24 ACEHI wedi symud dri neu fwy o grwpiau amddifadedd yn uwch (mwy difreintiedig) ac mae 9 ACEHI wedi symud dri neu fwy o grwpiau amddifadedd yn is (llai difreintiedig) o'i gymharu â MALIC 2011. Fodd bynnag dylid bod yn ofalus wrth gymharu MALlC 2011 a MALlC 2014 oherwydd y newidiadau yn y fethodoleg. (Gweler Adran 8.6)

### ACEHI sy'n gymharol fwy difreintiedig

O'r 24 ACEHI a ddaeth yn gymharol fwy difreintiedig, gan symud dri grŵp neu fwy, symudodd 16 ACEHI o'r grŵp degradd 30-50 y cant i grŵp y 10 y cant mwyaf difreintiedig; roedd chwarter yr ardaloedd hyn yng Nghaerdydd.

Symudodd 6 ACEHI o grŵp y 50 y cant lleiaf difreintiedig i grŵp y 10-20 y cant mwyaf difreintiedig. Yr ardaloedd hyn oedd:

- Bodelwyddan, Sir Ddinbych
- Dwyrain yr Wyddgrug, Sir y Fflint
- De Dinbych-y-pysgod 2, Sir Benfro
- Llansamlet 2, Abertawe
- Tonysguboriau, Rhondda Cynon Taf
- Plasnewydd 3, Caerdydd

Symudodd 2 ACEHI o grŵp y 50 y cant lleiaf difreintiedig i grŵp y 10 y cant mwyaf difreintiedig. Yr ardaloedd hyn oedd:

- Stow Hill 2, Casnewydd
- Y Mynydd Bychan 2, Caerdydd

Mae'n debygol bod y ffaith y cafwyd gwared ar y boblogaeth gweithle amhreswyl o'r enwadur (ar gyfer dangosyddion lladrad, bwrgleriaeth a throseddu treisgar) wedi effeithio ar y 24 ACEHI a ddaeth yn gymharol fwy difreintiedig, gan fod pob un yn cynnwys o leiaf un o'r canlynol: ysbytai, parciau busnes, ystadau diwydiannol, swyddfeydd a siopau. Mae hyn wedi achosi gostyngiad yn yr enwadur, gan arwain at gynnydd yng ngwerth dangosydd yr ACEHI a chyfrannu at eu gwneud yn gymharol fwy difreintiedig.

### ACEHI sy'n gymharol lai difreintiedig

O'r 9 ACEHI sydd wedi symud dri grŵp neu fwy, symudodd 7 ACEHI o grŵp y 10 y cant mwyaf difreintiedig i grŵp y 30-50 y cant mwyaf difreintiedig. Yr ardaloedd oedd:

- Bracla 3, Pen-y-bont ar Ogwr
- Corneli 4, Pen-y-bont ar Ogwr
- Cwm Clydach 1, Rhondda Cynon Taf
- Dwyrain Tonyrefail 1, Rhondda Cynon Taf

- Betws (Casnewydd) 4, Casnewydd
- Pentwyn 2, Caerdydd
- Tredelerch 6, Caerdydd


Roedd 2 ACEHI wedi symud o grŵp y 10-20 y cant mwyaf difreintiedig i grŵp y 50 y cant lleiaf difreintiedig. Yr ardaloedd hyn oedd:

- Llanelli Hill 2, Sir Fynwy
- Beechwood 4, Casnewydd

## 8.5 Dadansoddiad awdurdodau lleol yn y maes Diogelwch Cymunedol

Mae Siart 8.1 isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes diogelwch cymunedol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'u canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol ac mae'r llinellau'n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 8.1: Plot blwch o safleoedd maes Diogelwch Cymunedol MALIC 2014, fesul awdurdod lleol**



Mae Tabl 8.2 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10 y cant (safleoedd 1-191), 20 y cant (safleoedd 1-382), 30 y cant (safleoedd 1-573) a 50 y cant (safleoedd 1-955) o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes diogelwch cymunedol ym MALIC 2014.

**Tabl 8.2: ACEHI difreintiedig y maes Diogelwch Cymunedol, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-191 | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-382 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-573 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 4.5 | 11.4 | 20.5 | 34.1 |
| Gwynedd | 73 | 8.2 | 15.1 | 23.3 | 38.4 |
| Conwy | 71 | 7.0 | 22.5 | 31.0 | 52.1 |
| Sir Ddinbych | 58 | 13.8 | 19.0 | 27.6 | 48.3 |
| Sir y Fflint | 92 | 8.7 | 18.5 | 27.2 | 38.0 |
| Wrecsam | 85 | 17.6 | 27.1 | 42.4 | 58.8 |
| Powys | 79 | 3.8 | 8.9 | 12.7 | 24.1 |
| Ceredigion | 46 | 6.5 | 8.7 | 10.9 | 21.7 |
| Sir Benfro | 71 | 7.0 | 14.1 | 21.1 | 38.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 6.3 | 9.8 | 14.3 | 27.7 |
| Abertawe | 148 | 12.2 | 24.3 | 35.1 | 49.3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 5.5 | 11.0 | 15.4 | 36.3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 6.8 | 18.2 | 22.7 | 58.0 |
| Bro Morgannwg | 79 | 8.9 | 22.8 | 30.4 | 41.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 7.1 | 18.2 | 33.8 | 64.9 |
| Merthyr Tudful | 36 | 8.3 | 30.6 | 47.2 | 66.7 |
| Caerffili | 110 | 8.2 | 19.1 | 34.5 | 68.2 |
| Blaenau Gwent | 47 | 23.4 | 46.8 | 61.7 | 89.4 |
| Torfaen | 60 | 11.7 | 25.0 | 40.0 | 65.0 |
| Sir Fynwy | 56 | 5.4 | 7.1 | 12.5 | 25.0 |
| Casnewydd | 95 | 16.8 | 28.4 | 42.1 | 62.1 |
| Caerdydd | 214 | 15.4 | 27.6 | 39.7 | 61.7 |
| **Cymru** | **1,909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

Un modd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ACEHI yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (neu'r 20 y cant ac ati) o'r holl ACEHI yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer diogelwch cymunedol oedd Blaenau Gwent (23.4 y cant).

Roedd hyn oherwydd bod cyfran uchel o'r ACEHI ym Mlaenau Gwent ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig ar gyfer llawer o ddangosyddion y maes diogelwch cymunedol.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran leiaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Powys (3.8 y cant).
- Blaenau Gwent oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (89.4 y cant). Yr uchaf wedyn oedd Caerffili, gyda 68.2 y cant.
- Yr awdurdod lleol â'r gyfran leiaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Ceredigion (21.7 y cant). Y nesaf oedd Powys, gyda 24.1 y cant.

## 8.6 Newidiadau methodolegol yn y maes Diogelwch Cymunedol rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Mae'r dangosydd Achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ym MALIC 2014 wedi disodli dangosydd canran y troseddwyr ifanc a chanran y troseddwyr sy'n oedolion ym MALIC 2011.

Mae'r enwadur ar gyfer y dangosyddion lladrad, troseddu treisgar a difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu wedi newid ar gyfer MALIC 2014 o gymharu â MALIC 2011, trwy ddiddymu'r boblogaeth gweithle amhreswyl. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn adran Gwybodaeth Gefndirol tudalennau gwe MALlC.

## 8.7 Gwybodaeth gefndir am y maes Diogelwch Cymunedol

Cynhaliodd Awdurdod Ystadegau'r DU asesiad o ystadegau yn seiliedig ar droseddau a gofnodir gan yr heddlu fis Ionawr 2014, a chanfod nad oeddent yn bodloni'r safon ofynnol i'w dynodi'n Ystadegau Gwladol. Mae'r adroddiad asesu llawn (rhif. 268) ar gael ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU. Cynhaliodd Arolygiaeth Ei Mawrhydi (HMIC) archwiliad i mewn i'r ffordd y mae'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn cofnodi data am droseddau a gofnodwyd rhwng mis Rhagfyr 2013 ac Awst 2014. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol HMIC 'Crime-recording: making the victim count – The final report of an inspection of crime data integrity in police forces in England and Wales', ar 18fed Tachwedd 2014 ac mae ar gael ar wefan yr Arolygiaeth.

O ganlyniad i beidio dynodi ystadegau trosedd a gofnodwyd gan yr heddlu o dan statws Ystadegau Cenedlaethol ac o ganlyniad i adroddiad terfynol HMIC, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro ac asesu'r defnydd o ddata troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu ar gyfer MALlC. Fodd bynnag, ar gyfer MALlC 2014 ystyrioedd a chytunodd y Grŵp Maes Diogelwch Cymunedol mai'r data am droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu oedd y ffynhonnell orau o ddata troseddau ar gyfer ardaloedd bach.

### Data Ychwanegol am Droseddau: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn mesur lefelau trosedd yng Nghymru a Lloegr trwy ofyn i bobl a ydynt wedi profi unrhyw drosedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Arolwg Troseddu yn cofnodi troseddau nad yw pobl o bosibl wedi

rhoi adroddiad i'r heddlu amdanynt, ac fe'i defnyddir gyda ffigurau'r troseddau sydd wedi eu cofnodi gan yr heddlu i roi darlun mwy cywir o lefel troseddu yng Nghymru a Lloegr.

Elfen ychwanegol a ddarperir gan yr Arolwg Troseddu yw gwybodaeth am sut mae pobl yn teimlo ynglŷn â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hon yn elfen allweddol o amddifadedd diogelwch cymunedol, o ran teimlo'n ddiogel pan fyddwch allan yn eich cymuned leol. Mae data a mwy o wybodaeth ynglŷn ag Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gael yma.

Nid yw'r data hyn wedi eu cynnwys ym MALIC 2014 gan nad yw'r data'n gadarn yn ystadegol ar lefel is na lefel Cymru.

**Teimlo'n anniogel – Arolwg Cenedlaethol Cymru**

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn holi ynglŷn â theimlo'n anniogel ar ôl iddi nosi yn eich ardal. Mae canfyddiadau pobl o ddiogelwch wedi eu cynnwys yn y diffiniad o amddifadedd diogelwch cymunedol. Mae mapiau a data ardaloedd lleol ar gael yma.

**Damweiniau traffig ar y ffordd**

Mae bod yn rhan o ddamwain ffordd yn brofiad negyddol, ond gallai'r ffaith fod pobl yn byw mewn ardal lle y mae damweiniau'n gyffredin hefyd effeithio ar eu canfyddiadau o ddiogelwch. Fel arfer, ystyrir mai nifer y cerddwyr a beicwyr a anafwyd sy'n dangos y cysylltiad cryfaf ag amddifadedd diogelwch cymunedol yn eich ardal. Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi data diogelwch ffyrdd ar gyfer Cymru, Ardaloedd Heddluoedd, ac Awdurdodau Lleol.

# 9 Y Maes Amgylchedd Ffisegol

AMGYLCHEDD FFISEGOL

5%


## 9.1 Cyflwyniad

Diben y maes hwn yw mesur ffactorau yn yr ardal leol a allai effeithio ar les neu ansawdd bywyd y bobl sy'n byw mewn ardal. I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes amgylchedd ffisegol, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

Mae gan y maes amgylchedd ffisegol bwysoliad o 5 y cant yn y Mynegai. Mae'r tri is-faes, a'r dangosyddion ynddynt, wedi eu pwysoli fel a ddangosir isod.

## 9.2 Dangosyddion y maes Amgylchedd Ffisegol

Mae'r maes amgylchedd ffisegol yn cynnwys tri is-faes, pob un â phwysoliad cyfartal (33.3 y cant). Mae is-faes ansawdd yr aer yn cynnwys dau ddangosydd (crynodiadau aer ac allyriadau aer) ac mae gan y ddau yr un pwysoliad yn yr is-faes hwnnw.




Caiff pob un o ddangosyddion yr amgylchedd ffisegol sgôr o rhwng 0 a 100 a daw'r wybodaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru.


- Mae’r dangosydd Agosrwydd at Safleoedd Gwaredu Gwastraff a Safleoedd Diwydiannol wedi ei seilio ar gyfran yr aelwydydd sydd o fewn pellteroedd penodedig i safleoedd o’r fath.
- Mae’r dangosydd Perygl Llifogydd wedi ei seilio ar gyfran yr aelwydydd sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd a’r môr (Asesiad Bygythiad Llifogydd Cenedlaethol).
- Mae dangosydd Crynodiadau Aer wedi ei seilio ar lefelau llygryddion o gridiau DEFRA ar gyfer 2012.
- Mae dangosydd Allyriadau Aer wedi ei seilio ar lefelau llygryddion o gridiau Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol 2011.

## 9.3 Canlyniadau allweddol y maes Amgylchedd Ffisegol

- Ym maes amgylchedd ffisegol MALIC 2014, roedd pocedi o amddifadedd mewn dinasoedd ac ardaloedd diwydiannol yn ne Cymru. Roedd y pocedi mwyaf amlwg o amddifadedd o ran yr amgylchedd ffisegol yng ngogledd Cymru yn Nolgellau (yn bennaf oherwydd gwerthoedd uchel ym maes perygl llifogydd) a Glannau Dyfrdwy (oherwydd cyfuniad o ffactorau, a’r rheiny’n amrywio ar lefel yr ACEHI).
- Yr awdurdod lleol â’r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig o ran yr amgylchedd ffisegol yng Nghymru oedd Sir y Fflint (34.8 y cant). Nid oedd gan Ynys Môn, Conwy, Ceredigion, Merthyr Tudful na Sir Fynwy yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes amgylchedd ffisegol, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Queensferry, Sir y Fflint.
- Mae’r patrymau amddifadedd cyffredinol o ran yr amgylchedd ffisegol ym MALIC 2014 yn debyg yn fras i rai MALIC 2011.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

# Maes Amddifadedd yr Amgylchedd Ffisegol



fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is

| Graddfa | Mwyaf Difreintiedig |
| --- | --- |
| 1 - 191 | 10% mwyaf difreintiedig |
| 192 - 382 | 10-20% mwyaf difreintiedig |
| 383 - 573 | 20-30% mwyaf difreintiedig |
| 574 - 955 | 30-50% mwyaf difreintiedig |
| 956 - 1909 | 50% lleiaf difreintiedig |

Lleiaf Difreintiedig

Ffin Awdurdod Lleol

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2014. Arolwg Ordnans 100021874

Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/123/14.15
Tachwedd 2014

## 9.4 Cymharu'r maes Amgylchedd Ffisegol rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Mae modd lawrlwytho'r gyfres gyflawn o safleoedd meysydd MALIC 2014 a'r dangosyddion (MALIC: Data Dangosyddion Blynyddol) oddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r isadran ganlynol yn disgrifio rhai o'r newidiadau i ACEHI yn y maes amgylchedd ffisegol ers MALIC 2011.

Mae Tabl 9.1 isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob grŵp amddifadedd ar gyfer MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae'r rhifau lletraws, mewn testun trwm, yn dangos nifer yr ACEHI sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp mwy difreintiedig.

Sylwer bod newidiadau diweddar mewn nifer fach o ffiniau ACEHI, yn dilyn Cyfrifiad 2011, wedi effeithio ar y grwpiau amddifadedd hyn. Mae'r ACEHI newydd hynny y mae'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol â MALIC 2011 wedi eu hepgor o'r gymhariaeth. Mae niferoedd yr hen ACEHI a'r rhai newydd wedi eu cynnwys yn y tabl (mewn colofn a rhes ar wahân) er mwyn dangos y darlun cyflawn. Gweler Atodiad B i gael mwy o wybodaeth.

**Tabl 9.1: Symudiadau'r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Amgylchedd Ffisegol rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014**

| Maes Amgylchedd Ffisegol 2011 | | Maes Amgylchedd Ffisegol 2014 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Hen ACEHI* | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-190) | **105** | 40 | 17 | 16 | 3 | 9 | 190 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd1 91-380) | 36 | **48** | 47 | 32 | 21 | 6 | 190 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 381-570) | 17 | 41 | **37** | 55 | 40 | 0 | 190 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 571-950) | 10 | 40 | 63 | **130** | 127 | 10 | 380 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 951-1,896) | 7 | 16 | 20 | 141 | **738** | 24 | 946 |
| | ACEHI newydd* | 16 | 6 | 7 | 8 | 25 | 0 | 62 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,896) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | 49 | **1,958** |

* Nid oes modd cymharu'r ACEHI hyn rhwng MALlC 2011 a MALlC 2014. Hen ACEHI yw'r rhai hynny a oedd yn bresennol ym MALlC 2011 ond sydd wedi eu disodli gan ACEHI newydd ers hynny. ACEHI newydd yw'r rhai hynny sy'n newydd i MALlC 2014.


Mae 7 ACEHI wedi symud o grŵp y 50 y cant o ardaloedd lleiaf difreintiedig ym MALlC 2011 i grŵp y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym MALlC 2014. Mae 16 ACEHI ychwanegol wedi symud o grŵp y 50 y cant lleiaf difreintiedig ym MALlC 2011 i'r 10-20 y cant mwyaf difreintiedig ym MALlC 2014. Mae'r ACEHI hyn mewn ardaloedd trefol, ac mae'r cynnydd mewn amddifadedd yn deillio ar y cyfan o'r sgorau uwch yn y dangosyddion agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol a/neu ansawdd yr aer.

Mae 19 ACEHI wedi symud o grŵp y 10 y cant mwyaf difreintiedig ym MALlC 2011 un ai i grŵp y 30-50 y cant mwyaf difreintiedig neu i grŵp y 50 y cant lleiaf difreintiedig ym MALlC 2014. Mae'r rhain mewn ardaloedd trefol yn bennaf, ac mae'r symudiadau'n deillio o gyfuniad o wahanol newidiadau yn y dangosyddion sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o'r ACEHI yn y categori hwn wedi gweld gostyngiad nodedig yn sgôr y dangosydd agosrwydd at safleoedd gwastraff a safleoedd diwydiannol.

## 9.5 Dadansoddiad awdurdodau lleol yn y maes Amgylchedd Ffisegol

Mae Siart 9.1 isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes amgylchedd ffisegol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae’r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi’u canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae’r llinellau’n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 9.1: Plot blwch o safleoedd maes amgylchedd ffisegol MALIC 2014, fesul awdurdod lleol**



Mae Tabl 9.2 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10 y cant (safleoedd 1-191), 20 y cant (safleoedd 1-382), 30 y cant (safleoedd 1-573) a 50 y cant (safleoedd 1-955) o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes amgylchedd ffisegol ym MALIC 2014.

**Tabl 9.2: ACEHI difreintiedig y maes Amgylchedd Ffisegol, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-191 | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-382 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-573 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 0.0 | 2.3 | 6.8 | 20.5 |
| Gwynedd | 73 | 1.4 | 2.7 | 5.5 | 17.8 |
| Conwy | 71 | 0.0 | 5.6 | 21.1 | 35.2 |
| Sir Ddinbych | 58 | 1.7 | 13.8 | 15.5 | 41.4 |
| Sir y Fflint | 92 | 34.8 | 48.9 | 58.7 | 68.5 |
| Wrecsam | 85 | 4.7 | 15.3 | 28.2 | 47.1 |
| Powys | 79 | 2.5 | 7.6 | 17.7 | 38.0 |
| Ceredigion | 46 | 0.0 | 6.5 | 13.0 | 23.9 |
| Sir Benfro | 71 | 4.2 | 11.3 | 16.9 | 23.9 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 6.3 | 17.9 | 29.5 | 53.6 |
| Abertawe | 148 | 7.4 | 14.2 | 26.4 | 43.9 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 17.6 | 33.0 | 39.6 | 69.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 5.7 | 17.0 | 22.7 | 37.5 |
| Bro Morgannwg | 79 | 11.4 | 20.3 | 27.8 | 43.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 2.6 | 10.4 | 18.2 | 45.5 |
| Merthyr Tudful | 36 | 0.0 | 2.8 | 11.1 | 36.1 |
| Caerffili | 110 | 3.6 | 10.0 | 25.5 | 54.5 |
| Blaenau Gwent | 47 | 4.3 | 17.0 | 31.9 | 48.9 |
| Torfaen | 60 | 6.7 | 10.0 | 21.7 | 58.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 14.3 | 32.1 | 51.8 |
| Casnewydd | 95 | 29.5 | 42.1 | 53.7 | 80.0 |
| Caerdydd | 214 | 27.1 | 46.7 | 58.4 | 75.7 |
| **Cymru** | **1,909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

Un modd o ystyried data ACEHI ar lefel yr awdurdodau lleol yw edrych ar gyfran yr ACEHI yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig (neu'r 20 y cant ac ati) o'r holl ACEHI yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer yr amgylchedd ffisegol oedd Sir y Fflint (34.8 y cant). Roedd hyn oherwydd bod cyfran uchel o'r ACEHI yn Sir y Fflint ymhlith y mwyaf

difreintiedig ar gyfer cyfuniad o'r rhan fwyaf o ddangosyddion y maes amgylchedd ffisegol.

- Nid oedd gan Ynys Môn, Conwy, Ceredigion, Merthyr Tudful na Sir Fynwy yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig. Dim ond 17.8 y cant o'r ACEHI yng Ngwynedd oedd yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Casnewydd oedd â'r ganran uchaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (80.0 y cant). Yr uchaf wedyn oedd Caerdydd, gyda 75.7 y cant o'i ACEHI yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Y rheswm am hyn oedd bod llawer o'r ACEHI yn yr awdurdodau lleol hyn yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig ar gyfer ansawdd yr aer ac o leiaf un dangosydd amgylchedd ffisegol arall.

## 9.6 Newidiadau methodolegol yn y maes Amgylchedd Ffisegol rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i greu'r dangosyddion ar gyfer y maes amgylchedd ffisegol yr un fath ar gyfer MALIC 2014 ag yr oedd ar gyfer MALIC 2011. Fodd bynnag, gwnaed rhai newidiadau/gwelliannau technegol i ddangosyddion ansawdd yr aer a llifogydd.

O ganlyniad i newidiadau i reoliadau ansawdd yr aer a newidiadau methodolegol o fewn Defra (sy'n darparu data grid crynodiadau aer), mae nifer o newidiadau wedi eu gwneud i'r dangosyddion crynodiadau aer ac allyriadau aer (e.e. y llygryddion sydd wedi eu cynnwys yn y dangosyddion).

Mae'r categorïau llifogydd wedi newid ers MALIC 2011. Mae'r pwysoliadau cysylltiedig a roddir i'r categorïau llifogydd wedi newid hefyd.

Mae manylion llawn ar gael yn Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

## 9.7 Gwybodaeth gefndir am y maes Amgylchedd Ffisegol

### 9.7.1 Ansawdd yr Aer

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (a ddefnyddir fel ffynhonnell ar gyfer y dangosydd allyriadau aer) ar gael yma. :

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r UK Air Information Resource (a ddefnyddir fel ffynhonnell ar gyfer data'r dangosydd crynodiadau aer) ar gael yma.

Mae dangosyddion ansawdd yr aer a ddefnyddir yn MALIC yn defnyddio data cryno blynyddol. Mae ansawdd yr aer yn amrywio yn ôl y tymor a'r flwyddyn. Gan fod angen prosesu'r data er mwyn creu'r dangosydd, ni allwn ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am ansawdd yr aer. Mae gwybodaeth amser real ynglŷn â lefelau ansawdd yr aer ar gael ar wefan Ansawdd Aer Cymru yma.

## Tipio Anghyfreithlon

Mae tipio anghyfreithlon yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ffisegol ac yn amddifadu pobl o amgylchedd da i fyw ynddo. Ystyriwyd cynnwys y dangosydd hwn mewn mynegeion blaenorol, ond fe'i gwrthodwyd oherwydd diffyg ffynhonnell data briodol ar gyfer ardaloedd bach. Mae hyn yn parhau i fod yn wir.
Mae ystadegau am dipio anghyfreithlon a gofnodwyd gan Awdurdodau Lleol ar gael yma.

## Asesiad Bygythiad Llifogydd Cenedlaethol

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Asesiad Bygythiad Llifogydd Cenedlaethol ar gael yma.

# 10 Y Maes Tai

TAI

5%


## 10.1 Cyflwyniad

Diben y maes tai, o ran cysyniad, yw casglu gwybodaeth am amddifadedd sy'n deillio o ddiffyg tai digonol, o ran eu cyflwr ffisegol, amodau byw a'r graddau y maent ar gael. Fodd bynnag, mae'r diffyg data priodol yn golygu nad oes modd mesur amddifadedd tai yn llawn yn unol â'r diffiniad hwn. I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes tai, gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

Mae gan y maes tai bwysoliad o 5 y cant yn y Mynegai. Mae'r dangosyddion wedi'u pwysoli fel a ddangosir isod.

## 10.2 Dangosyddion y maes tai

Mae'r maes tai yn cynnwys 2 ddangosydd sydd wedi eu pwysoli:




Mae'r pwysoliadau hyn yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd ym MALIC 2011. Gweler Adran 10.6 i gael mwy o fanylion.

- Mae'r dangosydd ar gartrefi gorlawn yn mesur canran y boblogaeth sy'n byw ar aelwydydd â graddfa feddiannaeth o -1 neu is, ar sail data Cyfrifiad 2011 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig) i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn.
- Mae'r dangosydd ar wres canolog yn mesur canran y boblogaeth sy'n byw ar aelwydydd heb unrhyw wres canolog, ac mae wedi ei seilio ar ddata Cyfrifiad 2011 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

## 10.3 Canlyniadau allweddol y maes tai

- Ym maes tai MALIC 2014, roedd pocedi o amddifadedd uchel o ran tai mewn ardaloedd trefol fel dinasoedd mawrion de Cymru, ac mewn ardaloedd mwy gwledig fel y gogledd-orllewin.


- Yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Caerdydd (36.9 y cant). Nid oedd gan Sir Fynwy na Chaerffili unrhyw ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes tai, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Riverside 2, Caerdydd.
- Mae'r newidiadau mewn amddifadedd mewn ardaloedd mwy gwledig rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014 yn deillio'n bennaf o wres canolog:

  a) gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n byw ar aelwydydd heb unrhyw wres canolog.

  b) gostyngwyd pwysoliad y dangosydd gwres canolog (o ½ i ⅓).
- Mae cyfran y bobl sy'n byw ar aelwydydd heb unrhyw wres canolog wedi gostwng o 6 y cant yn 2001 (a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2011) i 1.8 y cant yn 2011 (a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2014).
- Newidiwyd y dangosydd cartrefi gorlawn i fod yn fesuriad seiliedig ar ystafelloedd gwely ar gyfer MALIC 2014, felly nid oes modd ei gymharu'n uniongyrchol â'r dangosydd yn MALIC 2011 (gweler Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig) i gael mwy o wybodaeth).

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

# Maes Amddifadedd Tai




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2014. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/123/14.15
Tachwedd 2014

## 10.4 Cymharu'r maes tai rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

Mae modd lawrlwytho'r gyfres gyflawn o safleoedd y meysydd ar gyfer MALIC 2014 a'r dangosyddion (MALIC: Data Dangosyddion Blynyddol) o dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae Tabl 10.1 isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae'r rhifau lletraws, mewn testun trwm, yn dangos nifer yr ACEHI sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd ACEHI sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp mwy difreintiedig.

Sylwer bod newidiadau diweddar mewn nifer fach o ffiniau ACEHI, yn dilyn Cyfrifiad 2011, wedi effeithio ar y grwpiau amddifadedd hyn. Mae'r ACEHI newydd hynny y mae'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol â MALIC 2011 wedi eu hepgor o'r gymhariaeth. Mae niferoedd yr hen ACEHI a'r rhai newydd wedi eu cynnwys yn y tabl (mewn colofn a rhes ar wahân) er mwyn dangos y darlun cyflawn. Gweler Atodiad B i gael mwy o wybodaeth.

**Tabl 10.1: Symudiadau'r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Tai rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014**

| | | **Maes Tai 2014** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Hen ACEHI* | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| **Maes Tai 2011** | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-190) | **100** | 46 | 17 | 16 | 5 | 6 | 190 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd1 91-380) | 34 | **37** | 34 | 44 | 31 | 10 | 190 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 381-570) | 19 | 43 | **35** | 51 | 36 | 6 | 190 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 571-950) | 18 | 44 | 61 | **119** | 135 | 3 | 380 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 951-1,896) | 6 | 17 | 37 | 141 | **721** | 24 | 946 |
| | ACEHI newydd* | 14 | 4 | 7 | 11 | 26 | 0 | 62 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,896) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | 49 | **1,958** |

* Nid oes modd cymharu'r ACEHI hyn rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Hen ACEHI yw'r rhai hynny a oedd yn bresennol ym MALIC 2011 ond sydd wedi eu disodli gan ACEHI newydd ers hynny. ACEHI newydd yw'r rhai hynny sy'n newydd i MALIC 2014.


Mae 34 ACEHI wedi symud o grŵp y 30-50 y cant mwyaf difreintiedig a grŵp y 50 y cant lleiaf difreintiedig ym MALIC 2011 i'r 10 y cant mwyaf difreintiedig ym MALIC 2014. Mae 21 ACEHI ychwanegol wedi symud o grŵp y 50 y cant o ardaloedd bach lleiaf difreintiedig ym MALIC 2011 i grŵp y 10-20 y cant mwyaf difreintiedig ym MALIC 2014. Mae'r rhain mewn ardaloedd trefol yn bennaf, a'r rheswm pennaf am hyn yw'r dangosydd gorlenwi (gwerthoedd cymharol uchel).

Mae 23 ACEHI wedi symud o'r 10 y cant mwyaf difreintiedig ym MALIC 2011 i un ai'r 30-50 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig neu i'r 50 y cant lleiaf difreintiedig ym MALIC 2014. Mae llawer o'r ardaloedd hyn yn rhai gweddol wledig ac ym MALIC 2011 roeddent yn cynnwys cyfran gymharol fawr o bobl heb wres canolog. Mae'r gyfran hon bellach wedi gostwng yn sylweddol, ac o ganlyniad i hynny, yn ogystal â'r ffaith y rhoddwyd pwysoliad is i'r dangosydd gwres canolog a'r ffaith y ceir cyfradd gymharol isel o gartrefi gorlawn, mae'r ardaloedd wedi dod yn llai difreintiedig o safbwynt tai.

### 10.5 Dadansoddiad awdurdodau lleol ym maes tai

Mae Siart 10.1 isod yn dangos dosbarthiad y safleoedd yn y maes Tai ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'u canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r llinellau'n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 10.1: Plot blwch o safleoedd maes tai MALIC 2014 fesul awdurdod lleol**



Mae Tabl 10.2 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10 y cant (safleoedd 1-191), 20 y cant (safleoedd 1-382), 30 y cant (safleoedd 1-573) a 50 y cant (safleoedd 1-955) o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes tai ym MALIC 2014.

**Tabl 10.2 ACEHI difreintiedig y maes Tai, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-191 | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-382 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-573 | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig graddfeydd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 2.3 | 25.0 | 40.9 | 63.6 |
| Gwynedd | 73 | 27.4 | 43.8 | 63.0 | 84.9 |
| Conwy | 71 | 15.5 | 28.2 | 38.0 | 60.6 |
| Sir Ddinbych | 58 | 13.8 | 24.1 | 36.2 | 56.9 |
| Sir y Fflint | 92 | 6.5 | 22.8 | 34.8 | 46.7 |
| Wrecsam | 85 | 15.3 | 29.4 | 37.6 | 58.8 |
| Powys | 79 | 2.5 | 6.3 | 10.1 | 49.4 |
| Ceredigion | 46 | 17.4 | 41.3 | 50.0 | 71.7 |
| Sir Benfro | 71 | 4.2 | 18.3 | 39.4 | 64.8 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 1.8 | 11.6 | 24.1 | 46.4 |
| Abertawe | 148 | 6.8 | 18.2 | 25.7 | 44.6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 1.1 | 3.3 | 11.0 | 39.6 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 1.1 | 2.3 | 6.8 | 17.0 |
| Bro Morgannwg | 79 | 2.5 | 7.6 | 17.7 | 31.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 1.3 | 9.7 | 17.5 | 38.3 |
| Merthyr Tudful | 36 | 13.9 | 30.6 | 44.4 | 66.7 |
| Caerffili | 110 | 0.0 | 2.7 | 12.7 | 42.7 |
| Blaenau Gwent | 47 | 4.3 | 10.6 | 14.9 | 48.9 |
| Torfaen | 60 | 1.7 | 13.3 | 25.0 | 50.0 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 5.4 | 12.5 | 26.8 |
| Casnewydd | 95 | 14.7 | 25.3 | 35.8 | 49.5 |
| Caerdydd | 214 | 36.9 | 47.7 | 57.5 | 65.0 |
| **Cymru** | **1,909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

Un modd o ystyried data ACEHI ar lefel yr awdurdodau lleol yw edrych ar gyfran yr ACEHI yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10 y cant mwy difreintiedig (neu'r 20 y cant ac ati) o'r holl ACEHI yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn y maes tai, oedd Caerdydd (36.9 y cant). Y prif reswm am hyn yw bod cyfran gymharol fawr o bobl yn byw ar aelwydydd gorlawn mewn rhai rhannau o Gaerdydd.

- Nid oedd gan Sir Fynwy na Chaerffili yr un ACEHI yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru. 20.5 y cant yn unig o'r ACEHI ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Gwynedd oedd â'r ganran fwyaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (84.9 y cant). Yr uchaf wedyn yw Ceredigion, gydag 71.7 y cant o'i ACEHI yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

### 10.6 Newidiadau methodolegol yn y maes tai rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014

I gydnabod y ffaith bod diffyg gwres canolog yn dod yn ddangosydd cynyddol wael o ansawdd tai dros amser, rydym wedi gostwng ei bwysoliad yn y maes i 1/3. I gyd-fynd â hyn, mae pwysoliad y dangosydd gorlenwi bellach yn cael pwysoliad o 2/3.

Mae'r raddfa feddiannaeth a ddefnyddir i gyfrifo'r dangosydd gorlenwi wedi newid o fod yn fesur ystafelloedd i fod yn fesur ystafelloedd gwely. Esbonnir hyn yn llawn yn yr Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

### 10.7 Gwybodaeth gefndir am y maes tai

#### Digartrefedd

Gellir ystyried mai digartrefedd yw'r ffurf fwyaf eithafol o amddifadedd o ran tai. Nid oes modd cynnwys data ynglŷn â digartrefedd ym MALIC gan mai ar lefel Awdurdodau Lleol yn unig y maent ar gael ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, ceir problemau'n ymwneud â diffiniad ar gyfer dangosydd sy'n seiliedig ar ardal fach (h.y. os yw rhywun yn ddigartref, i ba ACEHI y byddai'n cael ei neilltuo).

Mae data ynglŷn â digartrefedd (hyd at lefel awdurdodau lleol) ar gael yma.

#### 10.7.1 Tlodi Tanwydd

Y diffiniad o dlodi tanwydd yw aelwydydd y mae eu costau tanwydd, er mwyn gwresogi eu cartrefi yn ddigonol, yn fwy na 10 y cant o'u hincwm (gan gynnwys Budd-dal Tai neu Gymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais). Ystyrir hon yn broblem Incwm, ond mae'n gysylltiedig â Thai hefyd.

Mae data tlodi tanwydd yn ddata wedi eu modelu ar sail data Byw yng Nghymru. Mae'r amcangyfrifon wedi eu modelu diweddaraf ar gael yma.

Nid oes data diweddar ar gael ar lefel ACEHI.

**Ansawdd Tai**

Mae'r cysyniad o dai o ansawdd gwael yn allweddol i ddiben y maes tai ('casglu gwybodaeth am amddifadedd sy'n deillio o ddiffyg tai digonol, o ran eu cyflwr ffisegol, amodau byw a'r graddau y maent ar gael'). Fodd bynnag, nid oes data digonol ar gael ar hyn o bryd ar y pwnc hwn (ar lefel Cymru) ar gyfer y stoc tai cyfan oherwydd na chynhaliwyd arolwg tai cenedlaethol yng Nghymru yn ddiweddar. Mae peth gwybodaeth ynglŷn ag ansawdd tai cymdeithasol ar gael – h.y. cyfran y tai sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae data ynglŷn â Safon Ansawdd Tai Cymru (ar lefel Cymru) ar gael yma:

Mae data ar gael hefyd ar gyfer y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Offeryn gwerthuso ar sail risg yw hwn, i helpu awdurdodau lleol i nodi a diogelu rhag risgiau a pheryglon posibl i iechyd a diogelwch o ganlyniad i ddiffygion a nodwyd mewn eiddo. Fe'i defnyddir i benderfynu a yw eiddo preswyl yn ddiogel i fyw ynddo neu a oes perygl yn bodoli a allai achosi niwed i iechyd a diogelwch preswylydd posibl. Er ei fod yn cwmpasu pob eiddo preswyl, fe'i defnyddir fel arfer i asesu safonau mewn tai yn y sector preifat. Mae gwybodaeth ar gael yma.

**Effeithlonrwydd Ynni**

Gellid ystyried gwybodaeth am sgorau'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yn arwydd bras o ansawdd Tai. Mae tai sy'n defnyddio ynni'n aneffeithlon yn fwy anodd/drud i'w gwresogi. Mae angen Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) ar gyfer eiddo pan gânt eu hadeiladu, eu gwerthu neu eu gosod. Mae'r EPC yn rhoi manylion am berfformiad ynni'r eiddo a'r hyn y gellid ei wneud i'w wella. Ni chwblhawyd gwaith i asesu cwmpas, cysondeb ac ansawdd data EPC mewn pryd i'w bwydo i broses MALIC 2014.

Gellir gweld ystadegau arbrofol ar Dystysgrifau Perfformiad Ynni Adeiladau yng Nghymru a Lloegr yma. :

**Adfeddiannau**

Ystyrir adfeddiannau yn broblem Incwm, ond mae hefyd yn gysylltiedig â Thai. Cyhoeddir data ar adfeddiannau morgeisi a landlordiaid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder hyd at lefel awdurdodau lleol.

# 11 Atodiad A: Cynhyrchion MALlC

Mae pecyn o gynhyrchion ar gael yn ymwneud â MALlC 2014. Gellir gweld y rhain ar www.cymru.gov.uk/mallc

**Prif Gyhoeddiad**
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014 – Crynodeb Gweithredol

**Deunydd Canllaw**
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014 – Canllaw
- Inffograffeg MALlC 2014 (Sut cyfrifir MALlC)
- WIMD 2014 Frequently asked questions (Saesneg yn unig)

**Data**
- Taenlen– Ranciau cyfangwbl a meysydd MALlC
- StatsCymru Ciwbiau Data
    - Mynegai MALlC 2014
    - Mynegai MALlC 2014 - Dadansoddiad Awdurdodau Lleol
    - Data blynyddol dangosyddion MALlC: Ciwb AGEHI

**Gwefan rhyngweithiol newydd MALlC**
- Gwefan sy'n caniatau defnyddwyr i weld canlyniadau ar gyfer detholiad o ardaloedd

**Gwybodaeth Dechnegol**
- Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) 2014 – Technical Report (Saesneg yn unig)
- Data Quality Report (Saesneg yn unig)

**Amddifadedd mewn Ardaloedd Gwledig**
- Statistical Article - WIMD 2014: A guide to analysing deprivation in Rural Areas (Saesneg yn unig)
- Papurau technegol:
    - Exploration of unemployment in Wales by settlement type for small areas – Summary (Saesneg yn unig)
    - Exploration of unemployment in Wales by settlement type for small areas (Saesneg yn unig)

# 12 Atodiad B: Disgrifiad o AGEHI/ Uned ddaearyddol

## 12.1 Uned ddaearyddol

Yr ardaloedd daearyddol a ddefnyddir yn MALIC 2014 yw'r 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI). Defnyddiwyd AGEHI fel uned ddaearyddol yn MALlC 2005, 2008 a 2011, a chawsant eu cynllunio er mwyn cyflwyno adroddiadau ar ystadegau ardaloedd bach. Mae AGEHI hefyd yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir gan dair gwlad arall y DU ar gyfer eu mynegeion nhw.

## 12.2 Ardaloedd Cynnyrch Ehangach

Yn sgil Cyfrifiad 2001, aeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ati i ddatblygu hierarchaeth ddaearyddol o'r enw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (ACE). Fe'u cynlluniwyd er mwyn gwella'r dull o gofnodi ystadegau ardaloedd bach yng Nghymru a Lloegr. Erbyn hyn, mae ystadegau swyddogol yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar gyfer daearyddiaeth ACE, lle maent ar gael. Mae tair haen o ACE: Haen Is, Haen Ganol, a Haen Uwch. Y rheswm am hyn oedd bod gofynion datgelu yn golygu bod modd rhyddhau rhai setiau o ddata ar gyfer ardaloedd llawer llai nag eraill. Felly, er mwyn cefnogi amrywiaeth o ofynion data posibl, penderfynwyd creu'r tair haen arbennig hon. Dyma'r cyfyngiadau:

- Rhaid i ACE Haen Is gynnwys isafswm poblogaeth o 1,000. Rhaid i faint cymedrig yr holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is fod yn agos i 1,600. Maent yn seiliedig ar grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch y Cyfrifiad (rhwng 4 a 6 fel arfer).
- Rhaid i ACE Haen Ganol gynnwys isafswm poblogaeth o 5,000. Rhaid i faint cymedrig yr holl Ardaloedd Cynnyrch fod yn agos i 7,200.

## 12.3 Changes between 2001 Census and 2011 Census

Mae ffiniau ACE yn cael eu diwygio ar ôl bob Cyfrifiad, er mwyn ystyried newidiadau mewn poblogaeth. MALIC 2014 fydd y mynegai cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r ffiniau diwygiedig yn sgil Cyfrifiad 2011. Yng Nghyfrifiad 2001, roedd 1,896 AGEHI - mae 49 wedi dod i ben erbyn hyn, a 61 o rai newydd wedi'u creu.

Cyflwynwyd newidiadau i ffiniau AGEHI ar sail y canlynol:

- roedd y boblogaeth yn rhy fawr, felly rhannwyd yr AGEHI yn ddwy ardal;
- roedd y boblogaeth yn rhy fach, felly cyfunwyd AGEHI/AGEHG ag ardal gyfagos; neu
- mae'r boblogaeth wedi newid yn sylweddol, felly bu cyfuniad o'r ddwy sefyllfa uchod.

Mewn rhai achosion, bu newidiadau yn dilyn yr Ymgynghoriad ar Ganlyniadau Daearyddol a gynhaliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2010. Lle'r oedd AGEHI wedi newid, cafodd yr hen god ei ddileu a dynodwyd un newydd yn ei le. Er hwylustod, neilltuwyd enwau Cymraeg a Saesneg i bob cod AGEHI. Mae enw pob AGEHI wedi'i bennu gan yr Awdurdod Lleol perthnasol.

Yn MALlC 2014, roedd 1,846 AGEHI na newiddiodd ffiniau ers MALlC 2011, 61 AGEHI gyda ffiniau oedd yn ganlyniad i uniad neu raniad o AGEHI gyfagos a 12 AGEHI gyda ffiniau a grewyd o newidiadau mwy cymhleth. Rhoddir crynodeb o’r newidiadau ffiniau AGEHI yn y tabl isod.

## Tabl o newidiadau AGEHI rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2011

| AGEHI 2001 | Awdurdod lleol | Enw AGEHI 2001 | AGEHI 2011 | Enw AGEHI 2011 | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| W01000045 | Gwynedd | Aberdaron | W01001932 | Aberdaron / Botwnnog a Tudweiliog | U |
| W01000046 | Gwynedd | Aberdyfi | W01001933 | Aberdyfi / Bryn-crug / Llanfihangel | U |
| W01000055 | Gwynedd | Botwnnog a Thudweiliog | W01001932 | Aberdaron / Botwnnog a Tudweiliog | U |
| W01000058 | Gwynedd | Bryn-crug/Llanfihangel | W01001933 | Aberdyfi / Bryn-crug / Llanfihangel | U |
| W01000120 | Conwy | Abergele Pen-sarn | W01001927 | Abergele Pensarn 1 | R |
| W01000120 | Conwy | Abergele Pen-sarn | W01001928 | Abergele Pensarn 2 | R |
| W01000160 | Conwy | Llansanffraid 1 | W01001926 | Llansanffraid | U |
| W01000161 | Conwy | Llansanffraid 2 | W01001926 | Llansanffraid | U |
| W01000357 | Wrecsam | Dyffryn Ceiriog 1 | W01001930 | Dyffryn Ceiriog 3 | U |
| W01000358 | Wrecsam | Dyffryn Ceiriog 2 | W01001930 | Dyffryn Ceiriog 3 | U |
| W01000421 | Wrecsam | Smithfield | W01001929 | Smithfield 2 | R |
| W01000421 | Wrecsam | Smithfield | W01001931 | Smithfield 3 | R |
| W01000435 | Powys | Crughywel 1 | W01001903 | Crughywel | X |
| W01000436 | Powys | Crughywel 2 | W01001904 | Llangatwg a Glangrwyne | X |
| W01000437 | Powys | Cwm-twrch | W01001899 | Cwm-twrch | X |
| W01000462 | Powys | Llangatwg | W01001904 | Llangatwg a Glangrwyne | X |
| W01000463 | Powys | Llan-gors a Bwlch | W01001905 | Llangors, Bwlch a Grwyne | X |
| W01000468 | Powys | Llanrhaeadr-ym-Mochnant | W01001906 | Llanrhaeadr-ym-Mochnant | X |
| W01000469 | Powys | Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin | W01001907 | Llansilin | X |
| W01000490 | Powys | St John 1 | W01001901 | St John 1 | X |
| W01000491 | Powys | St John 2 | W01001902 | St John 2 | X |
| W01000495 | Powys | Tal-y-bont ar Wysg | W01001897 | Tal-y-bont ar Wysg | X |
| W01000514 | Ceredigion | Aberystwyth Gogledd | W01001934 | Penglais | U |
| W01000520 | Ceredigion | Borth 1 | W01001937 | Y Borth | U |
| W01000521 | Ceredigion | Borth 2 | W01001937 | Y Borth | U |
| W01000526 | Ceredigion | Faenor 2 | W01001934 | Penglais | U |
| W01000530 | Ceredigion | Llanbadarn Fawr - Padarn a Llanbadarn Fawr - Sulien | W01001935 | Llanbadarn Fawr De | R |
| W01000530 | Ceredigion | Llanbadarn Fawr - Padarn a Llanbadarn Fawr - Sulien | W01001936 | Llanbadarn Fawr Gogledd | R |

## Tabl o newidiadau AGEHI rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2011

| AGEHI 2001 | Awdurdod lleol | Enw AGEHI 2001 | AGEHI 2011 | Enw AGEHI 2011 | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| W01000661 | Sir Gaerfyrddin | Glanymôr 3 | W01001923 | Glanymor 3 | R |
| W01000661 | Sir Gaerfyrddin | Glanymôr 3 | W01001924 | Glanymor 4 | R |
| W01000668 | Sir Gaerfyrddin | Hengoed (Sir Gaerfyrddin) 2 | W01001925 | Hengoed 2 | U |
| W01000669 | Sir Gaerfyrddin | Hengoed (Sir Gaerfyrddin) 3 | W01001925 | Hengoed 2 | U |
| W01000743 | Abertawe | Castell 2 | W01001955 | Castell 2 Gogledd | R |
| W01000743 | Abertawe | Castell 2 | W01001958 | Castell 2 De | R |
| W01000748 | Abertawe | Castell 7 | W01001938 | Castell 7 Dwyrain | R |
| W01000748 | Abertawe | Castell 7 | W01001957 | Castell 7 Gorllewin | R |
| W01000780 | Abertawe | Cilâ Gogledd 1 | W01001956 | Cilâ 3 | U |
| W01000783 | Abertawe | Cilâ De 2 | W01001956 | Cilâ 3 | U |
| W01000972 | Castell-nedd Port Talbot | Ystalyfera 1 | W01001900 | Ystalyfera 1 | X |
| W01000988 | Pen-y-bont ar Ogwr | Bryntirion, Laleston a Merthyr Mawr 1 | W01001918 | Bryntirion Laleston a Merthyr Mawr 1 | R |
| W01000988 | Pen-y-bont ar Ogwr | Bryntirion, Laleston a Merthyr Mawr 1 | W01001919 | Bryntirion Laleston a Merthyr Mawr 4 | R |
| W01000988 | Pen-y-bont ar Ogwr | Bryntirion, Laleston a Merthyr Mawr 1 | W01001920 | Bryntirion Laleston a Merthyr Mawr 5 | R |
| W01000988 | Pen-y-bont ar Ogwr | Bryntirion, Laleston a Merthyr Mawr 1 | W01001921 | Bryntirion Laleston a Merthyr Mawr 6 | R |
| W01001074 | Bro Morgannwg | Castleland 2 | W01001910 | Castleland 2G | R |
| W01001074 | Bro Morgannwg | Castleland 2 | W01001911 | Castleland 2H | R |
| W01001163 | Rhondda Cynon Taf | Gartholwg 2 | W01001915 | Gartholwg 2 | R |
| W01001163 | Rhondda Cynon Taf | Gartholwg 2 | W01001916 | Gartholwg 3 | R |
| W01001254 | Rhondda Cynon Taf | Tonyrefail - Gorllewin 2 | W01001914 | Tonyrefail Gorllewin 2 | R |
| W01001254 | Rhondda Cynon Taf | Tonyrefail - Gorllewin 2 | W01001917 | Tonyrefail Gorllewin 4 | R |
| W01001323 | Merthyr Tudful | Faenor 1 | W01001898 | Faenor 1 | X |
| W01001544 | Sir Fynwy | Castell Cil-y-coed 2 | W01001908 | Llanddewi | U |
| W01001547 | Sir Fynwy | Croesonnen | W01001909 | Croesonen | U |
| W01001550 | Sir Fynwy | Llanddewi a Green Lane 1 | W01001908 | Llanddewi | U |
| W01001570 | Sir Fynwy | Y Maerdy 1 | W01001909 | Croesonen | U |
| W01001656 | Casnewydd | Maerun 1 | W01001912 | Maerun 4 | R |
| W01001656 | Casnewydd | Maerun 1 | W01001913 | Maerun 5 | R |

**Tabl o newidiadau AGEHI rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2011**

| AGEHI 2001 | Awdurdod lleol | Enw AGEHI 2001 | AGEHI 2011 | Enw AGEHI 2011 | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| W01001700 | Caerdydd | Butetown 2 | W01001942 | Butetown 3 | R |
| W01001700 | Caerdydd | Butetown 2 | W01001950 | Butetown 6 | R |
| W01001700 | Caerdydd | Butetown 2 | W01001952 | Butetown 8 | R |
| W01001701 | Caerdydd | Butetown 3 | W01001940 | Butetown 2 | R |
| W01001701 | Caerdydd | Butetown 3 | W01001943 | Butetown 4 | R |
| W01001701 | Caerdydd | Butetown 3 | W01001944 | Butetown 5 | R |
| W01001701 | Caerdydd | Butetown 3 | W01001951 | Butetown 7 | R |
| W01001723 | Caerdydd | Cathays 6 | W01001922 | Cathays 9 | R |
| W01001723 | Caerdydd | Cathays 6 | W01001939 | Cathays 10 | R |
| W01001723 | Caerdydd | Cathays 6 | W01001941 | Cathays 11 | R |
| W01001763 | Caerdydd | Grangetown 5 | W01001945 | Grangetown 10 | R |
| W01001763 | Caerdydd | Grangetown 5 | W01001947 | Grangetown 12 | R |
| W01001763 | Caerdydd | Grangetown 5 | W01001946 | Grangetown 11 | R |
| W01001801 | Caerdydd | Llanisien 11 | W01001949 | Llanishen 11 | R |
| W01001801 | Caerdydd | Llanisien 11 | W01001953 | Llanishen 12 | R |
| W01001845 | Caerdydd | Radur 1 | W01001948 | Radur a Thremorgan 3 | R |
| W01001845 | Caerdydd | Radur 1 | W01001954 | Radur a Thremorgan 4 | R |

U= uniad, R=rhaniad, X=newid cymhleth

Ceir gwybodaeth bellach am newidiadau ffiniau rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011 ar wefan y https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105225829/http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/geography/products/census/index.html.

Mae'r tabl usod yn rhestri nifer yr AGEHI ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

| **Awdurdod lleol** | **Nifer AGEHI** |
|---|---|
| Ynys Môn | 44 |
| Gwynedd | 73 |
| Conwy | 71 |
| Sir Ddinbych | 58 |
| Sir y Fflint | 92 |
| Wrecsam | 85 |
| Powys | 79 |
| Ceredigion | 46 |
| Sir Benfro | 71 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 |
| Abertawe | 148 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 |
| Bro Morgannwg | 79 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 |
| Merthyr Tudful | 36 |
| Caerffili | 110 |
| Blaenau Gwent | 47 |
| Torfaen | 60 |
| Sir Fynwy | 56 |
| Casnewydd | 95 |
| Caerdydd | 214 |

# 13 Atodiad C: Rhestr o ddangosyddion MALIC 2014

Mae’r tabl canlynol yn rhoi crynpodeb o’r dangosyddion a gynhwysir yn MALIC 2014. Ceir gwybodaeth bellach yn Adroddiad Technegol WIMD 2014 (Saesneg yn unig).

| Dangosydd | Unedau | Enwadur | Cyfnod y dangosydd | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Y Maes Incwm** | | | | |
| Canran y boblogaeth mewn amddifadedd incwm. Wedi ei ddiffinio fel y rheiny sydd naill ai: | Canran | Cyfanswm poblogaeth yr AGEHI | | |
| (a) yn oedolyn, neu'n blentyn dibynnol oedolyn, sy'n derbyn budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm | | | 2012/13 | Adran Gwaith a Phensiynau |
| (b) yn oedolyn, neu'n blentyn dibynnol oedolyn, sy'n derbyn Credydau Treth a Phlant ac sydd ag incwm sy'n llai na 60 y cant o'r incwm canolrif ar gyfer Cymru | | | 2012/13 | Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| (c) Ceisiwr Lloches (fel a ddiffinir gan adran 95) | | | 2014 | Swyddfa Gartref |
| **Y Maes Cyflogaeth** | | | | |
| Canran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth | Canran | Poblogaeth oed gweithio yr AGEHI | 2012/13 | Adran Gwaith a Phensiynau |
| **Y Maes Iechyd** | | | | |
| Mynychder canser (wedi'i safoni yn anuniongyrchol yn nôl oedran a rhyw) | nifer fesul 100,000 | poblogaeth AGEHI | cyfartaledd 2003-2012 | Ymddireiedolaeth GIG Felindre Velindre NHS Trust |
| Salwch Cyfyngus Hirdymor (wedi'i safoni yn anuniongyrchol yn nôl oedran a rhyw) | nifer fesul 100,000 | poblogaeth AGEHI | 2011 | Cyfrifiad |
| Pwysau geni isel (genedigaethau unigol byw llai na 2.5 kg) | Canran | poblogaeth AGEHI | cyfartaledd 2004-2013 | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Cyfradd Marwolaeth o Bob Achos (wedi'i safoni yn anuniongyrchol yn nôl oedran a rhyw) | nifer fesul 100,000 | poblogaeth AGEHI | cyfartaledd 2004-2013 | Swyddfa Ystadegau Gwladol |

| Dangosydd | Unedau | Enwadur | Cyfnod y dangosydd | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Y Maes Addysg** | | | | |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 | Sgôr Pwyntiau | Cyfanswm nifer myfyrwyr CA2 | Blynyddoedd ysgol 2010/11 - 2012/13 | CYBLD, CDC |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i chapio Cyfnod Allweddol 4 | Sgôr Pwyntiau | Cyfanswm nifer myfyrwyr CA4 | Blynyddoedd ysgol 2010/11 - 2012/13 | CYBLD, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru |
| Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 Cynhwysol | Canran | Cyfanswm nifer myfyrwyr CA4 | Blynyddoedd ysgol 2010/11 - 2012/13 | CYBLD, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru |
| Absenoliaeth Mynych | Canran | Nifer myfyrwyr ysgol cynradd ac uwchradd | Blynyddoedd ysgol 2010/11 - 2012/13 | CYBLD |
| Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch | Canran | Poblogaeth Ifanc | Blynyddoedd ysgol 2005/06 - 2010/11 | HEFCE |
| Nifer yr Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau | Canran | Cyfanswm poblogaeth 25-64 oed | 2011 | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| **Y Maes Mynediad i Wasanaethau** | | | | |
| Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Siopau Bwyd | Munudau | Amherthsol (amser cyfartalog) | 2014 | Landmark InterestMap |
| Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i feddygfeydd meddygon teulu | Munudau | Amherthsol (amser cyfartalog) | 2014 | GIG Cymru |
| Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Ysgolion Cynradd | Munudau | Amherthsol (amser cyfartalog) | 2013/14 | Llywodraeth Cymru |
| Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Ysgolion Uwchradd | Munudau | Amherthsol (amser cyfartalog) | 2013/14 | Llywodraeth Cymru |
| Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Swyddfeydd Post | Munudau | Amherthsol (amser cyfartalog) | 2014 | Landmark InterestMap |

| Dangosydd | Unedau | Enwadur | Cyfnod y dangosydd | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Y Maes Mynediad i Wasanaethau (Parhâd)** | | | | |
| Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Fferyllfeydd | Munudau | Amherthsol (amser cyfartalog) | 2014 | GIG Cymru |
| Amseroedd teithio preifat i Orsafoedd Petrol (teithio preifat yn unig) | Munudau | Amherthsol (amser cyfartalog) | 2014 | Landmark InterestMap |
| Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Ganolfanau Hamdden | Munudau | Amherthsol (amser cyfartalog) | 2014 | Chwaraeon Cymru |
| **Y Maes Diogelwch Cymunedol** | | | | |
| Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu | Canran | Cyfartaledd 2012 a 2013: Nifer yr anheddau a chyfeiriadau busnes | 2012/13 - 2013/14 | Heddluoedd Cymru |
| Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu | Canran | Cyfanswm poblogaeth breswyl (Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer Ardaloedd Bach 2012), ac eithrio'r boblogaeth mewn carchardai 2012 | 2012/13 - 2013/14 | Heddluoedd Cymru |
| Lladrad a gofnodir gan yr heddlu | Canran | Cyfanswm poblogaeth breswyl (Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer Ardaloedd Bach 2012), ac eithrio'r boblogaeth mewn carchardai 2012 | 2012/13 - 2013/14 | Heddluoedd Cymru |
| Troseddu treisgar a gofnodir gan yr heddlu | Canran | Cyfanswm poblogaeth breswyl (Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer Ardaloedd Bach 2012), ac eithrio'r boblogaeth mewn carchardai 2012 | 2012/13 - 2013/14 | Heddluoedd Cymru |

| Dangosydd | Unedau | Enwadur | Cyfnod y dangosydd | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Y Maes Diogelwch Cymunedol (Parhâd)** | | | | |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | Cyfran | Cyfanswm poblogaeth breswyl (Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer Ardaloedd Bach 2012), ac eithrio'r boblogaeth mewn carchardai 2012 | Gorffennaf 2012 - Mehefin 2014 | Heddluoedd Cymru |
| **Y Maes Amgylchedd Ffisegol** | | | | |
| Perygl Llifogydd | Sgôr (rhwng 0 a 100) | Amherthnasol | 2014 | Data Asesiad Risg Llifogydd Cenedlaethol, trwy Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Allyriadau Aer | Sgôr (rhwng 0 a 100) | Amherthnasol | 2011 | Cyfoeth Naturiol Cymru (yn defnyddio gridiau Allyriadau Aer 2011 o'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol) |
| Crynodiadau Aer | Sgôr (rhwng 0 a 100) | Amherthnasol | 2012 | Cyfoeth Naturiol Cymru (yn defnyddio gridiau Crynodiadau Aer 2012 Adran yr Angylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) |
| Agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol | Sgôr (rhwng 0 a 100) | Amherthnasol | 2014 | Cyfoeth Naturiol Cymru |

**Y Maes Tai**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfran y bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely) | Canran | Nifer y bobl yn byw mewn aelwydydd | 2011 | Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Cyfran y bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog | Canran | Nifer y bobl yn byw mewn aelwydydd | 2011 | Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol |